YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MAI, 1870.

GEORGE PEABODY.

Nid bychan o beth yw bod yn enwog ac yn barchus yn y byd, bod yn wrthddrych serch a chariad gwresog ei gyd-ddynion, a bod yn destun galar a hiraeth cyffredinol trwy'r wlad wedi cilio o hono o'r golwg tan lèni tywyllion y bedd; ond ychydig o ddynion sydd yn teilyngu hyn mewn cymhariaeth i'r miloedd a'r miliynau sydd yn byw ac yn marw yn hollol ddisylw a dinod.

Oddeutu triugain neu driugain a deg o flynyddau yn ol, yn mhentref Danvers, Massachusetts, yr oedd bachgen bychan yn *apprentice* mewn *grocery shop*, wedi ei gymeryd adref o'r ysgol er mwyn ei osod i ddysgu ennill ei fara a chaws pan yn un flwydd ar ddeg oed. Yr oedd George Peabody yn un o deulu onest, sobr, a diwyd yn Lloegr Newydd; ei hynafiaid oeddynt ymfudwyr o ryw barth o'r wlad hon chwech o genhedlaethau cyn hyny. Yn mhlith ei berthynasau henaf yr oedd un neu ddau o weinidogion a duwinyddion yn perthyn i'r cynulleidfaolwyr, ac yn enwog o ran eu dysg a'u duwioldeb. Ni chafodd George Peabody nemawr o fanteision dysg, oherwydd ei symud o'r ysgol mor ieuanc. Dysgodd ddarllen, ysgrifenu, ac ychydig rifyddiaeth, mewn ysgol gymydogaethol; ac am bob gwybodaeth a gyrhaeddodd yn ol llaw, yr oedd yn rhwymedig yn unig i'w ymdrech a'i ddiwydrwydd ei hun. Wedi treulio pedair blynedd fel breintwas mewn *grocery shop*, a blwyddyn arall gyda'i dad-cu, yn trin tir gerllaw Vermont, aeth at ei frawd Dafydd, yr hwn oedd newydd agor *drapery shop* yn Newburyport. Bu yn dra anffodus yma, oblegid yn mhen ychydig fisoedd tòrodd tân allan, yr hwn a losgodd *shop* Peabody, yn nghyda'r rhan fwyaf o dai y dref. Yr oedd ewythr iddo, o'r enw John Peabody, yn byw yn Georgetown, yn Columbia, a bu mor garedig â gwahodd ei nai i fod yn gynorthwywr iddo yn ei fasnach. Derbyniodd George y gwahoddiad, a bu yn aros gyda'i ewythr am ddwy flynedd yn trefnu ac yn arolygu rhan helaeth o'r fasnach, er ei fod eto dan ugain oed. Yn mis Mai, 1812, yn ystod y rhyfel rhwng Prydain Fawr a'r Unol Daleithiau, pan yr hwyliodd y llynges Brydeinig i fynu ar hyd afon Potomac, George Peabody, fel llawer ereill yr un amser, a unodd â'r fyddin, gan roddi ei wasanaeth yn wirfoddol am ychydig fisoedd fel milwr a dinasydd i amddiffyn Fort Warburton. Wedi myned o'r rhyfel byr yma drosodd, ar gyfrif ei fedr a'i ddiwyd-

rwydd profedig mewn masnach, efe a gafodd wahoddiad, yr hwn hefyd a dderbyniodd, i fod yn gyfranog âg un arall mewn trafnidiaeth newydd. Ei *bartner* oedd Mr. Elisha Riggs, yr hwn oedd ar fin cychwyn arwerthiad o bob math o ddefnyddiau at ddillad trwy Daleithiau Canol yr Undeb. Gan Riggs yr oedd yr arian, a Peabody oedd yn gwneuthur y gwaith; a chafodd "*Firm Riggs and Peabody*" lwyddiant mawr. Peabody oedd yn gorfod myned oddeutu, ac aml y teithiodd ei hun yn unig trwy wylltoedd gorllewinol New York a Pennsylvania, a thrwy blanhigfeydd Maryland a Virginia, os nad weithiau yn mhellach, gan letya dros y nos mewn ffermdai ac yn mhalasau caethfeistriaid, felly yn dyfod yn gydnabyddus â phob dosparth o ddynion, ac â phob dull o fyw. Yr oedd y fasnach yn helaethu ei therfynau yn fwy yn y Dê nag mewn un cyfeiriad arall, ac, mewn canlyniad, yn y flwyddyn 1815, symudwyd y nwydd-dy i Baltimore, er i ganghenau o hono, saith mlynedd ar ol hyny, gael eu hagor yn Philadelphia a New York. Oddeutu y flwyddyn 1830, rhoddodd Mr. Riggs y fasnach i fynu, a gadawodd Mr. Peabody yn ben ar un o'r tai helaethaf eu masnach gartrefol yn holl America. Hyd yma yr oedd ei yrfa fasnachol yn gyffelyb i eiddo masnachwyr medrus a llwyddiannus ereill yn eu hanturiaethau.

Y mae agwedd arall i fywyd Mr. Peabody, yn yr hon yr oedd yn tra rhagori ar bawb ereill. Nid oedd neb yn sefyll cyfuwch âg ef yn marn y wlad fel dyn gonest, call, ac o yspryd cyhoeddus. Nid oedd awydd ynddo am unrhyw swydd wladol; ni chwennychai bleidlais un *parti* yn fwy na'r llall, a chiliai draw oddiwrth bob ymryson politicaidd ag oedd yn cadw America mewn terfysg parhaus. Gwell oedd ganddo osod o flaen Gwerinlywodraeth ei wlad enedigol y siampl berffeithiaf o gyfiawnder, anrhydedd, a haelfrydigrwydd mewn bywyd cymdeithasol, yn nghyd âg enghraifft o hunan-ddiwylliant dynoliaeth trwy ymdrech a diwydrwydd. Ni byddai angen am ffalsedd gwleidyddol ar werinlywodraeth yn cael ei gwneuthur i fynu o ddynion o'r nodweddiad yma. Yr oedd y dyn onest gymaint yn fwy na'r llywodraeth, oblegid tra yr ydoedd ef yn eistedd gartref, y personau a ddalient awenau y wlad yn eu llaw a ddaethent ato i ofyn ei gynghor a'i gynorthwy. Ymbiliai ei gyd-ddynion arno, ar gyfrif ei foesoldeb a'i gallineb fel person anghyhoedd, i gyfryngu er eu hachub rhag trychineb anhawsderau cyllidol. Felly y mae wedi dygwydd yn fynych yn hanes amgylchiadau o'r fath; un dinasydd o gymeriad uchel yn ei wlad, yn gymaint ag i hyny unwaith waredu Maryland rhag dinystr meth-daliad, a waredai hefyd ymherodraeth gyfan mewn llawer achos cyffelyb.

Ond yn ffortunus i'r wlad hon, ac efallai i'r Saeson y ddwy ochr i'r *Atlantic*, trefnodd Rhagluniaeth i Mr. Peabody ddyfod i Lundain. Ei ymweliad cyntaf a gymerodd le yn y flwyddyn 1827, pan oedd efe eto y prif *bartner* yn y *Baltimore firm*. O'r diwedd, yn y flwyddyn 1843, enciliodd o'r *firm*, ac ymsefydlodd yn y wlad hon, mewn cysylltiad âg ereill, fel masnachwr a *money-broker*, wrth yr enw *George Peabody and Co., Warnford-court, City*. Yr oedd a fynai yn helaeth â thrafnidiaeth arianol o bob math, megys *discounto* biliau, prynu a gwerthu yn y *public funds*, &c. Penodwyd ef yn un o dri o ddirprwywyr i drefnu moddion i adferu *credit* Maryland pan yn ei chyfyngder mawr, a gwrthododd gymeryd un tâl am ei waith; ond llywodraeth y dalaeth hòno a gyflwynodd iddo, yn y modd mwyaf cyhoeddus, ei diolchgarwch gwresocaf am ei

wasanaeth. Americiaid yn Ewrop oeddynt bob amser yn falch i gael y cyfleusdra o adnabod Mr. Peabody, oddiwrth yr hwn y derbynient, os yn deilwng, bob cynorthwy ag a allasai roddi, yn nghyda'r groesaw mwyaf caredig ag oedd yn bosibl. Mab gweddw ydoedd, heb anedd o'r eiddo ei hun i fyw ynddi, eithr yn lletya mewn ystafell neu ddwy dan gronglwyd un arall, a'i fywioliaeth yn syml ac yn rhâd i'r eithaf; eto, pan y galwai cyfeillion arno, neu ryw rai ag oedd ef yn adnabyddus o honynt, ni arbedai drafferth na thraul i'w gwneuthur yn gysurus wrth ei fwrdd. Croesawai ryw nifer o'i gyfeillion a'i gydnabod, ar brydiau, i giniaw gysurus yn y *clwb* y perthynai iddo, neu yn Richmond neu yn Hampton Court, manau anwyl i galon yr ymwelydd Americaidd. Ar y pedwerydd o Gorphenaf, dydd sefydliad Annibyniad America, arferai Mr. Peabody roddi ciniaw hanner-gyhoeddus yn y Palas Gwydr, yn goffadwriaethol o'r cyfryw amgylchiad. Yr ydoedd yn mhell iawn, gyda'r pellaf o bawb, o fod yn fath o feudwy; gwir, ychydig draul oedd yn myned arno i gynal ei hun, ond mewn cyfeillach nid oedd neb yn fwy hael nag ef, nac yn fwy parod i wneuthur pawb o'i gwmpas yn ddedwydd. Gallai, yn nghwmni ei gyfeillion, fwynhau pethau da y byd hwn yn gystal â neb. Yr unig bleser a gai wrtho ei hun oedd wrth bysgota, ac, fel Mr. Bright, nid yn aml y caid un a'i maeddai yn hyn. Dibwys, mae'n wir, yw coffâu arferion personol o'r fath yma—pethau bychain ydynt, rhaid cyfaddef, eto, nid annheilwng o gael eu crybwyll yn hanes dyn y mae ei enw mor ddwfn yn nghof a chariad y wlad. Yn y gweddill o'r papyr hwn, er mwyn dangos haelioni digymhar ei natur, y mae ein hamcan i gofnodi rhestr o weithredoedd mwyaf cyhoeddus ei fywyd yn y wlad hon yn gystal â'r ochr draw i'r Werydd.

Ynnillodd ei arian yn onest a diwyd, ac yr oedd am ddangos i'r byd y medrai eu cyfranu hefyd gyda llaw agored a di-gryn, yr hyn, yn ddiau, a wnaeth tu hwnt i bawb ag y mae genym sôn am danynt mewn hanes diweddar, a hyny yn y modd mwyaf syml a dirodres ag y gallai rhinwedd ddynol byth fod yn alluog i wneuthur. Gwyddai yn hollol pa beth yr oedd yn ei gylch. Bachgenyn o Yankee tlawd yn dechreu *busnes* yn Baltimore; ac wedi mynychu marchnadoedd mawrion America a Llundain am hanner can mlynedd, mwy na thebyg fod hwn yn deall gwerth arian, a phob peth a ellir ei brynu am arian yn unrhyw barth o'r byd. Yr oedd wedi gweled cymaint o'r byd, ac wedi cael cymaint o brofiad o'r byd â nemawr o ddynion mewn masnach—cyfarwydd â chymdeithasu a theithio. Wedi byw yn y wlad hon, gwyddai pa bethau a ellir eu gwneuthur gan foneddigion a phendefigion yn derbyn eu hanner can mil neu gan mil o bunnau yn y flwyddyn. Pe wedi gwario ei arian yn ol ffasiwn cyfoethogion yn gyffredin, buasai ganddo balasau mawrion wedi eu hadeiladu, eu dodrefnu, a'u haddurno; buasai ei barcau llawnion a'i erddi ffrwythlawn yn syndod y gwledydd; ei wasanaeth-ddynion yn ddirif yn gweini iddo; ei feirch a'i gerbydau yn dysgleirio gan eu haddurniadau o aur ac o arian; ei wleddoedd yn aml, danteithiol, a chostfawr; ei ddarluniau, ei gerfluniau, a'i lyfrgelloedd wedi eu casglu heb arbed traul. Gallasai Mr. Peabody wario ei holl gyfoeth arno ei hun, ac er ei fwyn ei hun, fel hwythau, pe yn ewyllysio gwneuthur hyny, a gwahodd cwmni detholedig allan o blith prif gwymporion y deyrnas i eistedd o'i amgylch i gyd-fwynhau ac i gyd-lawenhau. Beth bynag a all y byd ei roddi, a pha beth bynag mae dynion y byd yn ddymuno, oedd yn sicr o

fewn cyrhaedd un mor gyfoethog â hwn. Gallasai fod ganddo awdurdod wladol o'r radd uwchaf yn America, pe yn ewyllysio cael y cyfryw; ac ni buasai awdurdod a dylanwad neb mewn ystyr gymdeithasol yn uwch yno neu yn Ewrop na'r eiddo ef; beth bynag a allasai mympwy ddynol, dan gymhelliad balchder ac hunanoldeb, chwantu, nid oedd un rhwystr ar ei ffordd i'w gael. Ond Mr. Peabody a fynwesai dyb neilldúol o'r eiddo ei hun. Credai, oddiar ei brofiad a'i sylw ei hun o'r byd, na allai un o'r pethau uchod wneuthur dyn yn ddedwydd, er, pan y mae dyn wedi gosod ei fryd arnynt, y byddai ei ymddifadu o honynt yn sicr o'i wneuthur yn annedwydd iawn. Yr oedd o'r farn y gwyddai am well ffordd i ddefnyddio ei gyfoeth er sicrhau ei ddedwyddwch, ac felly, efe a benderfynodd ddysgu y wers hon i bobl America a Lloegr, ac ereill, trwy ychydig enghreifftiau nodedig, y rhai a osodir o flaen y darllenydd yn y man.

Ei farn addfed oedd mai trwy ddyngarwch ymarferol y gallai ef gael mwyaf o ddedwyddwch oddiwrth ei gyfoeth. Gwnaeth brawf o'r cynllun, ac ni chafodd achos i edifarhau am ddim a wnaeth yn y cyfeiriad hwn. Ceisiodd a chafodd ei fwyniant penaf wrth gynorthwyo ei gyd-ddynion yn eu hamrywiol helyntion tymhorol, wrth "iawnu'r cam," cyweirio'r diffygiol, darparu gyferbyn âg iechyd, cysur, ac addysg nifer luosog o'r teulu dynol. Yn gymaint ag iddo ddewis gwneuthur hyn o flaen pob peth arall, a chan ei fod yn ewyllysio gosod y cynllun mewn gweithrediad effeithiol a diogel, cyfranodd symiau mawrion o arian at wahanol achosion yn ei fywyd, yn hytrach na gadael hyn i gael ei wneuthur gan ereill ar ol dydd ei farwolaeth.

Yn ei gydymdeimlad gwresog â'i bobl ei hun yn America, ac yn ei waith yn cyfryngu i achub eu cymeriad, y rhoddir i ni yr enghreifftiau cyntaf, yn gyhoeddus, o haelionusrwydd ei galon mewn ystyr arianol. Yn amser yr Arddangosiad Mawr yn Llundain, yn y flwyddyn 1851, rhoddodd Mr. Peabody, gyda'r parodrwydd mwyaf, y swm angenrheidiol i dalu am yr holl drefniadau gyferbyn â phob peth a olygai yr Unol Daleithiau anfon drosodd i'r Arddangosiad. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 1852, cytunodd ef a Mr. Henry Grinnell, perchenog llongau yn New York, i ddwyn y draul o anfon llongau i fynu i'r moroedd Gogleddol i chwilio am Syr John Franklin a'i gwmpeini. Yn yr un flwyddyn efe a roddodd swm fawr o arian, a ychwanegwyd wedi hyny i 100,000*l.*, i sefydlu llyfrgell ac addysg rydd yn Danvers, ei le genedigol. Yn y flwyddyn 1857, talodd Mr. Peabody ymweliad â'i wlad enedigol, wedi mwy nag ugain mlynedd o absenoldeb. Ar yr achlysur hwn efe a roddodd y swm o 100,000 tuag at gael llyfrgell ac ysgol rydd yn Baltimore i ddysgu y gwybodaethau a'r celfyddydau. Careg sylfaen yr adeilad a osodwyd i lawr yn 1858, a'r gwaith a orphenwyd yn brydlawn; ond gohiriwyd yr agoriad o herwydd toriad allan y gwrthryfel yn y Dê. Ni agorwyd mo hono nes yr oedd y rhyfel drosodd. Rhoddodd y sylfaenydd yr ail swm o 100,000*l.* ar ol hyny tuag at y sefydliad hwn.

Y 12fed o Fawrth, 1862, ysgrifenodd Mr. Peabody lythyr at Mr. C. F. Adams, y swyddog Americaidd, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Stanley, Syr J. E. Tennent, Mr. (yn awr Syr Curtis) M. Lampson, ac at Mr. J. S. Morgan, ei gydmar mewn masnach, i'w hyspysu fod y swm o 150,000*l.* yn aros yn llyfrau Meistri George Peabody & Co., i gael eu defnyddio ganddynt tuag at wellhau cyflwr tlodion Llundain.

Y boneddigion uchod a weithredasant yn uniongyrchol fel ymddiriedolwyr, ac a ddefnyddiasant yr arian yn ol y cynllun a osodwyd ger eu bronau gan y rhoddwr, sef mewn adeiladu tai cyfleus a chysurus i weithwyr. Yn Ionawr, 1866, Mr. Peabody a chwanegodd y swm o 100,000*l.* at y *fund* uchod; ac yn Rhagfyr, yr un flwyddyn, rhoddodd yn mhellach 15 erw o dir yn Brixton, 5642 o *shares* yn Hudson's Bay Company, a 5405*l.* mewn arian parod—y cyfanswm yn 100,000*l.*, yn gwneuthur i fynu, rhwng y cwbl, y rhodd fawreddog o 350,000*l.* i Lundain. Yr oll o'r rhodd hon sydd wedi ei hymddiried i ofal *trustees* mewn dwy weithred —un weithred yn cynwys 150,000*l.*, y rhodd gyntaf, a'r weithred arall, yn cynwys 200,000*l.*, yr ail rodd, yr hon nid oedd i gael ei dwyn i weithrediad cyn Gorphenaf, 1869. Yn ol cyfrifon y *trustees* am y flwyddyn 1868, ymddengys fod y rhodd gyntaf, sef 150,000*l.*, wedi chwyddo i 173,313*l.*; y cynydd wedi ei achosi gan rent y tai oeddid eisioes wedi eu hadeiladu, a chan lôg yr arian oedd eto heb gael eu gwario. Y mae pedair rhestr o dai yn barod wedi cael eu hadeiladu, yn tyo oddeutu 1971 o bersonau, cynwysedig o deuluoedd gweithwyr, yn ennill, gyda'u gilydd, dan 21s. yr wythnos. Y mae y *trustees* wedi cael ty-leoedd ereill, ac y maent yn bwriadu adeiladu tai arnynt at gyffelyb wasanaeth.

Yn ol ewyllys olaf Mr. Peabody, yr hon a agorwyd ar ddydd ei angladd, y mae ei gymun-weinyddwyr, Syr Curtis Lampson a Mr. Charles Reed, M.P., yn cael eu gorchymyn i dalu y swm pellach o 150,000*l.* i'r "Peabody fund," yn Llundain. Y mae hyn yn gwneuthur i fynu y cyfanswm o *hanner myrddiwn* o bunnau, wedi eu rhoddi gan Mr. Peabody er lles dynion tlodion Llundain.

Y mae llawer yn cofio y modd y cydnabyddwyd yr haeledd anghyffredin hwn o du dinasydd Americaidd anghyoedd yn Mhrydain Fawr. Rhoddwyd dinasfraint Llundain iddo gan y bwrdeiswyr. Cynygodd y Frenhines hithau wneuthur marchog o hono, neu roddi *grand cross of the Bath* iddo; yr hyn a ostyngedig wrthododdd Mr. Peabody. Ar hyn hi a ysgrifenodd lythyr diolchgar ato, gan ei wahodd i ddyfod i ymweled â hi yn Windsor. Yn mis Mawrth, 1866, ychydig amser cyn ei ymadawiad yr ail waith i ymweled â gwlad ei enedigaeth, derbyniodd Mr. Peabody oddi wrth ei Mawrhydi fân-ddarlun hardd o honi ei hun, wedi ei fin-gylchu yn y modd mwyaf costus. Y mae hwn wedi cael ei osod i'w gadw yn y Peabody Institute yn Danvers. Yr arwydd olaf o anrhydedd cyhoeddus i'r dyn da hwn, cyn ei farwolaeth, a ddangoswyd iddo yn Llundain gan Dywysog Cymru, ar yr achlysur o ddiorchuddio delw brês *(bronze statue)* o hono, gwaith Mr. Story, y tu cefn i'r Royal Exchange.

Arosodd Mr. Peabody yn ngwlad ei enedigaeth am dair blynedd, yn yspaid pa amser darfu iddo ychwanegu yn helaeth at ei roddion blaenorol, yn nghyd â chychwyn dau neu dri o sefydliadau pwysig. Rhoddodd 400,000*l.* er addysgu dynion gwynion a duon y Dê; 60,000*l.* tuag at gael amgueddfeydd i ddiogelu hen weddillion Americaidd yn ngholegau Yale a Harvard; 10,000*l.* at amgueddfa rydd yn Salem; 5,000*l.* i Esgob M'Ilvaine tuag at goleg Keynon; ac anrheg o 50,000*l.* i Dalaeth Maryland. Gwariodd hefyd 20,000*l.* i adeiladu "Eglwys Goffadwriaethol" am ei fam; a rhanodd rhwng ei berthynasau oddeutu 400,000*l.* Mewn cydnabyddiaeth o'i roddion aml a helaeth i wahanol sefydliadau cyhoeddus yn America, derbyniodd ddiolchgarwch penodol *Congress* yr Unol Daleithiau yn mis Mawrth, 1867.

Dechreuodd Mr. Peabody glafychu tra yn America; ond tybiodd ei fod mewn rhan wedi gwella; a dychwelodd i'r wlad hon, gyda'r bwriad o ymgynghori â'i feddyg ei hun, Dr. Gull, ac yna i dreulio y gauaf yn neheudir Ffrainc. Bu farw y 4ydd o Dachwedd diweddaf yn nhŷ ei gyfaill Syr Curtis Lampson, yn Eaton Square, Llundain, er galar cyffredinol trwy'r wlad hon ac America. Ganwyd ef y 18fed o Chwefror, 1795, ac felly yr oedd yn myned ar ei bymthegfed mlwydd a thriugain o'i oedran.

Cludwyd Mr. Peabody drosodd i America i gael ei gladdu, a chymerodd ei angladd le yr 8fed o Chwefror diweddaf yn Peabody, Massachusetts. Yr oedd ei gorff wedi bod yn gorwedd dan deyrngrwys yn y *Peabody Institute* oddiar yr ail ddydd o'r mis hyd yr wythfed, pryd y symudwyd ef i'r Eglwys Gynulleidfaol. Ar yr achlysur o'i gladdedigaeth, ar ol y gwasanaeth angladdawl arferol, traddododd yr Anrhydeddus Robert C. Winthrop araeth lawn o hyawdledd ar rinweddau yr ymadawedig. Yna cludwyd ef i *Cemetery* Harmony Grove, gerllaw y dref, yn cael ei ganlyn gan ei berthynasau, y Tywysog Arthur a'i osgordd, Mr. Thornton (y swyddog Prydeinig), y Llyngesydd Farragut, Cadben Commerell, ac amryw swyddogion morawl ereill, Prydeinig ac Americaidd; llywyddion Maine a Massachusetts; cynrychiolwyr amryw sefydliadau, taleithiau, a bwrdeisdrefi. Yr oedd yn yr angladd dros ddau cant o gerbydau, a phum mil o wyr traed.

V.

"Cais iawn ystyried beth yw diwedd
Y cwbl y sydd yn hyn o fyd;
Ei gyfoeth ef a'i niwlog fawredd
Sy'n amryfusedd mawr i gyd:
Yr unig olud sy'n ddiddarfod,
Y sy'n dragywydd ei barhad,
Yw'r hyn sy'n arwain y gydwybod
At 'wyllys mawr y cyfiawn Dad."

"Pob gwaith trugaredd, pob cyfiawnder,
Pob ymddwyn isel enaid llon,
Pob ufuddhad i Dduw'r uchelder,
A gant dderbyniad ger ei fron;
Yn ffyrdd y rhai'n cais ymfucheddu,
Yn 'wyllys Brenin mawr y nef;
Cai yn y gwynfyd mawr anneddu,
Cai, yn dragywydd gydag Ef."—Iolo.

ADFERIAD JUDA AC ISRAEL.

Y mae y grediniaeth y bydd i hâd Abraham gael eu hadferyd mewn rhyw amser dyfodol i wlad Palestina, a'i phrif ddinas Jerusalem, yn ennill tir yn gyflym yn yr oes bresenol. Eto, barna llawer na fydd i hyny gymeryd lle o hyn hyd ddiwedd amser.

Y mae golygiadau dilys eithafol ar y pwnc yma, y rhai y mae yn rhyfedd genym ni fod neb ag sydd wedi darllen hanesyddiaeth yr Hen Destament a'r Prophwydi yn eu cofleidio. Ychydig o amser yn ol traethwyd yr ymadroddion canlynol mewn cyfarfod cyhoeddus yn Leicester:*—

* "The paper in question probably originated in a feeling of impatience and displeasure, caused by that extreme futurism of some interpreters of prophecy which is

"Whatever might be the worldly motives of Cyrus in releasing the captive Jews, (and such Israelites as accompanied them,) · · · it is certain that he extended to them extraordinary favours. In his reign, and also under his successors, in carrying out the same policy, were then fulfilled the promises made to the Israelites by the mouth of Isaiah, long before the Babilonian captivity,—'They shall bring thy sons in their arms, · · · and their queens shall be thy nursling mothers.'" (xlix. 22. 23.)

Buasai yr ysgrifenydd yn ddiau yn cael ei arwain i dybied cywirdeb y golygiadau hyn pe buasai eu hawdwr hefyd wedi adysgrifenu y rhan olaf o'r drydedd adnod ar hugain,—"Crymant i ti, â'u hwynebau tua'r llawr, a llyfant lwch dy draed; a chei wybod mai myfi *yw* yr Arglwydd: canys ni chywilyddiant y rhai a ddysgwyliant wrthyf fi." Ni wnai yr esponiad egwanaf a allasem ni ei roddi ar yr ymadroddion yma ond dynodi amlygiad o'r parch dwysaf, ar ran y cenhedloedd a'u breninoedd a'u breninesau, i'r Iuddewon, pan fydd i'r Arglwydd yn ei drugaredd edrych arnynt megys pobl orthrymedig. Yr unig agoshad at y fath arddangosiad cyhoeddus o ymostyngiad a gwarogaeth, ar ol dychweliad y gaethglud o Babilon, oedd yn yr amser yr enillodd yr Iuddewon y fuddugoliaeth ar eu gelynion dinystriol yn nyddiau Mordecai ac Esther. Nid yn Jerusalem y cymerodd yr olygfa fwyaf neillduol a gogoneddus le oblegid y fuddugoliaeth hon, eithr yn Shushan yn Persia. Nid oedd un arwydd gweledig yr amser hwnw fod Jehofa oddeutu cyflawni ei addewidion gogoneddus,—"Wele cyfodaf fy llaw at y cenhedloedd, a dyrchafaf fy maner at y bobloedd; a dygant dy feibion (i Palestina a Jerusalem) yn *eu* mynwes a dy ferched ar ysgwyddau."

Hefyd, beth oedd sefyllfa yr Iuddewon a breswyliasent yn y tiriogaeth Persiaidd, Judea, a'r ddinas daleithiol, Jerusalem, yn yr ugeinfed flwyddyn o deyrnasiad Artaxerxes Longimanus, a thua deg a phedwar ugain o flynyddoedd ar ol dychweliad y gaethglud o Babilon, yr hyn sydd yn cael ei ystyried gan rai megys yr unig gyflawniad *llythyrenol* o'r prophwydoliaethau gogoneddus yr ydym yn darllen am danynt yn llyfrau Esaiah, Jeremiah, ac Ezeciel, a dderbynia yr Iuddewon, *fel Iuddewon*, o barth adferiad Israel o'r gwledydd paganaidd i Palestina? Rhydd cofnodion hanesyddol y Beibl atebiad boddhaol, yn ol ein tyb ni, i'r gofyniad yma; oblegid yr ydym yn darllen i ryw bersonau neillduol gyfarfod â Nehemiah yn Shusan, yn yr ugeinfed flwyddyn o deyrnasiad Artaxerxes. Pan y gofynodd Nehemiah rai gofyniadau iddynt o barth yr Iuddewon ag oeddynt wedi dianc, sef y rhan hòno o'r gaethglud a adawyd ar ol yno, hwy a atebasant,—"Ydynt mewn blinderau mawr a gwaradwydd: mur Jerusalem hefyd a ddrylliwyd, a'i phyrth a losgwyd â thân." Nehemiah i. 3. Pan y rhoddodd Artaxerxes orchymyn i Nehemiah i orphen adferiad y ddinas santaidd, o dan ba amgylchiadau y cyflawnodd efe y gorchymyn hwnw? Gwrthwynebwyd ef yn fawr iawn gan y dosparth hyny o'r cenhedloedd ag oeddynt yn meddianu y rhan

---

so justly discouraged in the present age. Yet the author of the paper has erred as greatly in history as others have in prophecy. He assumes that Hezekiah's great Passover, which was certainly celebrated in the first year of his reign, was not held until after the capture of Samaria by Shalmanester."—EDITOR OF MIDLAND COUNTIES DAILY EXPRESS.

hòno o'r wlad a addawyd i Jacob, eithr yr hon a drosglwyddwyd i Ephraim a Manasseh. Tra yr oedd rhai o'r adeiladwyr yn brysur wrth y gorchwyl o adeiladu y mur, yr oedd eraill yn eu gwylio â phicellau a tharianau.

Gadewch i ni yn awr ddwys fyfyrio ar y cyfryw brophwydoliaethau â'r rhai hyny y darllenwn am danynt yn yr unfed a'r ddwyfed benod ar bymtheg o lyfr Ezeciel, ac yna ni a welwn yn union ei bod braidd yn anmhosibl i ni gredu llai nag i'r holl addewidion a wnaed i hiliogaeth Jacob gael eu cyflawni yn amser, neu yn fuan ar ol, y caethiwed Babilonaidd. Gwelwn yma beth mae yr Arglwydd yn ei fynegi drwy enau ei was,—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn cymeryd meibion Israel (yn ddiau nid Juda a Benjamin yn unig, eithr Ephraim hefyd a holl blant Israel) o fysg y cenhedloedd yr aethant atynt; ac mi a'u casglaf hwynt o amgylch, ac a'u dygaf hwynt i'w tir eu hun; a gwnaf hwynt yn un genedl o fewn y tir yn mynyddoedd Israel; ac un brenin fydd yn frenin iddynt oll: ni fyddant mwy yn ddwy genedl, ac ni wneir hwynt mwyach yn ddwy frenhiniaeth: trigant hefyd yn y tir a roddais i'm gwas Jacob, yn yr hwn y trigodd eich tadau ynddo; a Dafydd fy ngwas fydd dywysog iddynt yn dragywydd." Ezec. xxxvii. 21, 22, 25.*

A ydyw yn briodol i ni yma ystyried "mynyddoedd Israel" a mynyddoedd Juda yn unrhywiol? neu gyfyngu y tir a roddodd Jehofah i'w was Jacob i diriogaeth Juda a Benjamin, a chau allan y rhandir hwnw a benodwyd gan Joshua i Ephraim a hanner llwyth Manasseh? *(The cis-Jordanic half tribe of Manasseh.)* Ac eto, ni fu Dafydd o gwbl yn frenin ar y rhan yma o'r wlad ar ol y caethiwed Caldeaidd. Pan gyrhaeddodd Zerubbabel a Joshua Jerusalem, yr oedd Samaria yn meddiant y trefedigion paganaidd, cyndadau y rhai a osodwyd yno gan frenhinoedd Assyria. Nid oedd gan Zerubbabel, nac Ezra, na Nehemiah, un awdurdod dros Samaria, yr hon a barhaodd i fod yn wahanedig oddiwrth Judea nes iddi gael ei dyfetha gan John Hyrcanus, ar ol blwyddyn o warchae. Ar ol hyny adeiladwyd teml wrthwynebol, yr hon a elwid *Nay*, cyn marwolaeth Alexander o Macedon, yr hon hefyd a ddinystriwyd gan John Hyrcanus gant a deg ar hugain o flynyddoedd cyn Crist. Pan yr ymostyngodd y Samariaid i awdurdod Jerusalem, nid Dafydd oedd yn frenin, ond un o dywysogion y llywodraeth *Asmonëaidd*, pa rai oeddynt o lwyth Lefi, ac ar ol hyn buont yn ddarostyngedig i'r llywodr-

---

* Dim ond i ni ddarllen y cyfaddefiad cenhedlaethol a ganlyn, yr hwn a wnawd yn gyhoeddus gan y Lefiaid 93 o flynyddoedd wedi cyhoeddiad gorchymyn Cyrus, gwelwn nad yw yr Israel llythyrenol wedi mwynhau *dim* o gyflawniad yr addewidion gogoneddus y darllenwn am danynt yn Ezeciel xxxvii. 21, 22, 25,—"Ac yn awr, O ein Duw ni, y Duw mawr, cadarn, ac ofnadwy, yr hwn *wyt* yn cadw cyfamod a thrugaredd; na fydded bychan o'th flaen di yr holl flinder a ddygwyddodd i ni, . . . ac i'n tadau, ac i'th holl bobl er dyddiau brenhinoedd Assyria *hyd y dydd hwn*. . . . Wele ni heddyw yn weision; ac am y wlad a roddaist i'n tadau ni, i fwyta ei ffrwyth a'i daioni, *wele ni yn weision ynddi*: a mawr yw ei thoraeth i'r brenhinoedd *a osodaist arnom ni am ein pechodau* (*brenhinoedd Persia*); ac arglwyddiaethu y maent ar ein cyrff ac ar ein hanifeiliaid, yn ol eu hewyllys; ac yr ydym mewn cyfyngder mawr." Nehemiah ix. 32, 37. Ni anturia un darllenydd cydwybodol o lyfrau Ezra a Nehemiah ddywedyd, feddyliwn ni, i Israel breswylio ar fynyddoedd Israel megys pobl unedig, o amser cyhoeddiad gorchymyn Cyrus, yn 536, hyd yr ugeinfed o deyrnasiad Artaxerxes, yn 445, o dan lywyddiaeth un brenin, yr hwn a gyfenwyd gan Jehofah trwy y prophwyd Ezeciel, "*Dafydd fy Ngwas.*"

aeth *Idumëaidd* neu *Edomaidd*. Un o dŷ Dafydd, y mae yn wir, oedd Zerubbabel, yr hwn a fu yn llywyddu dros Juda a Benjamin, a'r cyfryw Israeliaid a ddychwelasant gyda hwynt o Babilon; ond nid oedd efe yn llywyddu drostynt, ond yn unig drwy ganiatâd a phenodiad Coresh, nai Cyrus, y rhai, mewn ystyr, a allasent ei amddifadu o'i awdurdod pryd y mynent. Gallasent hefyd osod Persiad neu bagan yn frenin dros Jerusalem, am mai yn eu dwylaw hwy yr oedd yr awdurdod yn gyfangwbl. Ni cheisiodd Ezra ymarfer unrhyw ddylanwad dros y Samariaid, ac y mae genym ysgrythyr i brofi nad oedd gan Zerubbabel na Nehemiah un gradd o awdurdod dros y rhan hòno o'r wlad a fuasai yn meddiant Ephraim a Manasseh. Yr oedd y trefedigion a feddiannent y cyfundeb hwnw hefyd yn elynion chwerw i'r ddau benadur Iuddewig, ac ymdrechasant eu goreu i'w rhwystro i ail-adeiladu muriau Jerusalem. Yn mha gyfnod, ynte, rhwng dychweliad y gaethglud o Babilon a dinystr y ddinas santaidd gan Titus, mab Vespasian, y gellir dywedyd yn briodol fod tywysog o dŷ Dafydd yn llywyddu dros blant adferedig a dychweledig Israel, *y rhai oeddynt yn ffurfio un genedl yn mynyddoedd Israel*, a dim ond un brenin (o dŷ Dafydd) yn llywyddu dros un genedl unedig, yr hon a breswyliai yn y tir a roddodd Jehofah i'w was Jacob, yn yr hwn yr oedd eu tadau wedi bod yn bywiolaethu o'u blaenau? Nis gallwn enwi un genedl a ffurfiwyd yn y modd yma yn ystod y cyfnod maith o chwech cant a chwech o flynyddoedd, yr hwn a basiodd rhwng amser cyhoeddiad gorchymyn Cyrus, hyd fuddugoliaeth derfynol y fyddin Rufeinig yn nyddiau Vespasian, heb sôn am gyfnod yn cynwys llawer o genhedloedd, "hwy, a phlant eu plant, yn oes oesoedd."

Llundain. A. Rhys Thomas.

CODI CRACH.

Mr. Golygydd,—Y mae genyf achwyniad, ac yr wyf am roddi cyhoeddusrwydd iddo, a chredu yr wyf y gwnewch chwi hyny, yr hwn a broffeswch eich hunan yn gyfaill rhyddid, ac yn amddiffynydd hawliau pawb yn ddiwahan, pa un a fyddont yn cytuno â chwi ai peidio. Yr wyf wedi cael profion ddigon o'ch rhyddfrydigrwydd ac o'ch cydymdeimlad yn ystod y blynyddau yr wyf wedi bod yn ddarllenydd eich cylchiolyn clodwiw, ac yr wyf yn teimlo yn hyderus, yn bur hyderus, y rhoddwch glust o ymwrandawiad i hyn o gŵyn sy genyf.

Mi a fum yn ieuanc, ond yr wyf yn awr yn hen, ac y mae henaint yn gofyn anogaeth a chydymdeimlad. Yr wyf yn byw yma, sef mewn pentref bychan hardd, er ys yn agos i ddeugain mlynedd. Pan gychwynais fy *musnes* yn y lle hwn, yr oeddwn yn mhell iawn o fod yn gyfoethog; ond gyda diwydrwydd a gofal—gofalu am y *number one*—y mae'n hyfrydwch genyf eich hyspysu fy mod wedi cyrhaedd sefyllfa gysurus, yn cadw fy ngheffyl a fy ngherbyd, a phethau cyfleus ereill ag ydynt yn siwtio teimladau a sefyllfa boneddwr. Ond dyna, nid hyny yr oeddwn ar fedr ei ddywedyd; nagê ddim—pell iawn wyf oddiwrth ymffrostio. Nid yw wahaniaeth genych chwi i ba enwad yr wyf fi yn perthynu iddo, gwn nad yw. Ond pan ddaethum i yma gyntaf, yr oedd genym ni weinidog o doriad hen ffasiwn, cyffelyb i'r rhai hyny a ffynent yn mhlith ein hynafiaid. Dyn oedd na ddarfu i mi ddim cyd-deimlo âg ef erioed. Ni ddymunwn ddywedyd dim yn anmharchus am dano;

credaf ei fod yn ddyn gonest a chydwybodol. Yr oeddwn yn ceisio myned unwaith o leiaf bob dydd i wrandaw arno, ac yr oeddwn yn llwyddo, os na fyddai galw gartref arnaf i symio i fynu y cyfrifon, a gwneuthur darpariaethau ar gyfer gorchwylion yr wythnos. Y mae galwadau mynych ar amser un mewn *busnes*. Ond yr oeddwn yn mynychu'r capel yn fwy o ran arferiad nag o ran cariad. Yr oedd gan y pregethwr ryw *habit* annymunol, fel nad oedd posiblrwydd i neb hoffi y fath bregethu. Pregethai gymaint *at* ddyn, fel nad allech chwi ddim teimlo llai nad oedd efe wedi bod wrth eich ochr holl ddyddiau yr wythnos flaenorol. Ië, yn wir, yr wyf lawer gwaith wedi ei glywed yn gwneuthur *guess* o'r hyn oedd fy meddyliau a'm cynlluniau, fel yr wyf fwy nag unwaith wedi braidd anghredu fy ngwraig, pan y gwnai sicrhau i mi nad oedd hi wedi yngan yr un gair wrtho am fy nghymeriad. Pregethai weithiau gyda'r fath ddifrifoldeb ofnadwy, fel yr wyf wedi bod bron â chodi fy nwylaw i fyny i ddàl fy ngwallt ar fy mhen. Yr oedd hyn oll yn ofnadwy o annyoddefol i ddyn o'm sefyllfa i mewn cymdeithas; ond trwy fyned allan am *ride* o bleser, neu aros gartref o gwrdd y boreu, a bwyta ciniaw *hearty*, yr oeddwn yn dàl ac yn dyoddef yn weddol.

Ond i fyned yn y blaen. Yr oedd un peth yn ei ymddygiad ag y mae yr adgof am dano yn peri i mi o hyd i deimlo yn anghyfforddus. Nid oedd yn ddigon iddo i gael pregethu ataf bob Sul, fel ag i fod bron â rhwygo fy nghalon yn agored, ond yr oedd yn fynych yn dyfod oddi amgylch i wneuthur ymweliadau personol. Yr oeddwn weithiau yn myned i gwrdd y boreu, ac yn ceisio ganddo gymeryd *ride*, a dyfod gyda mi i giniaw. Oh! na, ar amserau felly nid oedd waeth pa ddarpariaethau oeddynt wedi eu gwneuthur ar ei gyfer, nid oedd yn bosibl ei gael ef byth yn agos i'r tŷ. Ond er ei fod yn gwrthod fy ngwahoddiadau, peidiwch â meddwl nad oedd byth yn ymweled â fy nheulu. Deuai yn fynych; ac addef y gwir, y mae yn rhaid i mi ddyweyd fy mod yn gwneyd pob brys a phob dyfais a allaswn i ochelyd ei gwmniaeth. Yr oedd yn eithaf moesgar, y mae yn wir—*polite*, os mynwch chwi, y pryd hwnw, ond nid oeddwn yn hoffi ei gateceisio—nid oeddwn yn caru iddo gael gafael yn fy ngwendidau a'm ffaeleddau. Y gwir yw, yr oedd ganddo ryw ffordd hynod i wneyd dyn yn anhapus. Oh! ïe, yr wyf yn cofio am dano yn fynych yn eistedd ar fy mhwys, ac yn ei ffordd dawel yn gwneyd ei apeliadau at fy nghalon a fy nghydwybod. Nis gallaf ei ddesgrifio, ond yr wyf yn ei gofio yn bur dda. Cof genyf am dano un tro yn pregethu ar weithredoedd da, ac yn gofyn "a wnai gweithredoedd da achub cyfaill iddo ef a arferai werthu ei swnd gyda'i sugr melyn, a mesur ei fŷs gyda'r brethyn?" Yr wyf yn fynych wedi bod yn methu dyfalu sut y gallai wybod mai hyn oedd fy arferiad i. O bosibl, oddiwrth hyn y meddyliwch ei fod yn anmhoblogaidd iawn. Dim *at all*, a dyma sydd wedi fy synu. Cerid ef gan bawb. Yr oedd galaru mawr ar ei ol pan fu farw; ond y mae wedi myned, ac nid ydwyf wedi cael fy mlino gan ymweliadau cyffelyb byth wedi'n.

Yn fuan wedi marw yr hen weinidog, cawsom un newydd. (Rhwng cromfachau, yr oedd genyf fi dipyn o law i sicrhau dewisiad hwn.) Yn awr, y mae hwn mor wahanol ag sydd bosibl i'r llall. Braidd y gallaf gael geiriau i ddarlunio fy hoffder o hono. Derbyniodd fy ngwahoddiad i gymeryd *seat* yn fy *ngharriage* y Sul cyntaf y daeth atom, a derbyniodd

share o giniaw ragorol genym. (Nid oeddwn wedi bwriadu dywedyd hyn wrthych, Mr. Golygydd, ond ei fod yn dyfod i mewn mor *neis*.) Ac y mae efe a minau wedi bod yn ffryndiau rhagorol o hyd. Pregethu egwyddorion y mae efe—athrawiaeth iachus. Nid yw byth yn bersonol, byth yn gwneyd i wallt dyn sefyll ar ei ben. Ond i ddyfod at y pwnc, —er fod genym weinidog mor *noble*, a phregethwr mor *fine*, y mae'r bobl mor ofergoelus, neu anwybodus, neu rywbeth, fel y maent eisoes yn gwneyd cymhariaethau anffafriol rhyngddo a'r hen weinidog, fel y mae'r gwr ieuanc mewn dyryswch yn methu gwybod i ba gyfeiriad i droi. Y mae yn foddlawn gwneyd ymweliadau ffasiynol, ond nid yw yn gwybod pa sut i ofyn gofyniadau yr un modd â'r hen weinidog. Yn awr, yr wyf fi yn ddyn o gryn dipyn o bwys yn y gynulleidfa, ac yr wyf yn gwneyd a allwyf i ddystewi y gwrthwynebwyr. Yr wyf yn siwr y GALL ein gweinidog presenol siarad ar bynciau difrifol, oblegid pan fu fy ngwraig yn dost, anfonwyd am dano. Hi a ddywedodd wrtho ei bod hi yn teimlo ei bod yn bechadur mawr, a phethau cyffelyb. Dywedodd yntau nad oedd efe ddim yn credu llai nad oedd hi yn well na'r Apostol Paul; fod hwnw wedi cwympo maes âg un o'i frodyr yn y weinidogaeth, "ac yr wyf yn sicr," meddai, "nad oes ynoch chwi ddim tueddiad felly."

Yn awr, Mr. Golygydd, dyna fi wedi gwneuthur *statement* o'r *case*, a da chwi rhoddwch help llaw i mi sicrhau cydweithrediad a chydymdeimlad y gynulleidfa, ac arosiad ein gweinidog presenol, yr hwn sydd yn gwneuthur y ffordd tua'r nef mor esmwyth a phleserus.

Pleasure Villa,
Broadway, Dangerton.

JOHN TAKE IT EASY.

Y BLANED GWENER.

(Gwel tudal. 301.*)*

PELLDER canolaidd y blaned Gwener oddiwrth yr haul mewn milldiroedd yw 68,932,000. Pan fyddo yn y man pellaf o'i chylch oddiwrtho, y pellder yw 69,405,000, a 68,459,000 yn y man agosaf. Hyd ei blwyddyn yw 225 diwrnod, 16 awr, a 49 mynyd. Yn ystod yr amser hwn hi a deithia 430,050,000 o filldiroedd!—buandra na all meddwl meidrol mo'i amgyffred. Ei phellder canolaidd mwyaf oddiwrth y ddaear ydyw 68,932,000, a'r lleiaf yw 24,566,000. Teithia yn ei chylch 80,000 milldir yr awr.

Fel y sylwasom o'r blaen, mae llwybr blynyddol y blaned hon rhwng llwybr Merchyr a llwybr y ddaear. Dylai y darllenydd wybod fod y planedau oll, sef Merchyr, Gwener, y Ddaear, Mawrth, Iau, Sadwrn, y Georgium Sidus, a Neptune, a'r Asteroids rhwng Mawrth a Iau, yn teithio yr un ffordd o amgylch yr haul, sef o'r gorllewin i'r dwyrain. Meddylier fod Gwener yn myned trwy gwarter o'i chylch mewn pymtheg niwrnod a deugain, mwy neu lai. Tra fyddo hi yn myned trwy y cyfran hwnw o'i chylch, â y ddaear yn y cyfamser trwy gyfran fawr o'i chylch hithau yr un ffordd, sef o'r gorllewin i'r dwyrain; am hyny ni ymddengys Gwener i ni yn teithio mor gyflym â phe buasai y ddaear yn sefydlog. Meddylier fod y blaned heno am saith o'r gloch wedi cyrhaedd y man uwchaf a all gyrhaedd yn y gorllewin, bydd hi 584 o ddiwrnodau cyn cyrhaedd yr un man y tro nesaf, er y teithia, fel y dywedasom, trwy ei chylch

blynyddol mewn 225 o ddiwrnodau. Symudiad y ddaear yr un ffordd a achosa y gwahaniaeth.

Nid yw Gwener ychwaith, mwy na'r blaned Merchyr, i'w gweled yn y dwyrain ar ostwng haul, ond yn wastad yn y gorllewin, hyny yw, pan fyddo yn seren hwyrol. Mae yn anmhosibl iddi hi hefyd, mwy na Merchyr, fod yn y gorllewin ar godiad haul. Paham? am fod ei chylch blynyddol hi o fewn cylch blynyddol y ddaear. Er mwyn egluro hyn, cymerwch ddau gylch, un yn presenoli llwybr blynyddol y ddaear, a'r llall lwybr Gwener. Gosodwch gylch Gwener o fewn cylch y ddaear, sef y lleiaf o fewn y mwyaf, a chanwyll yn y canol i bresenoli yr haul. Yna daliwch y ddau gylch a'r ganwyll yn syth o flaen eich wyneb. Gosodwch farblen neu bêl fechan i lithro ar hyd cylch Gwener o'r gorllewin i'r dwyrain. Pan yn dàl y cylchau a'r ganwyll yn y dull hwn, meddyliwch fod y farblen, neu y bêl, yn symud yn bwyllog ar hyd y cylch, chwi ganfyddwch ei bod yn un man o'r cylch uwch ben y ganwyll, ac yn y man cyferbyniol oddi tani. Ymddengys y symudiad i fynu ac i lawr—nid yn annhebyg i symudiad pendil. Pan yn teithio o barth uwchaf i barth isaf y cylch, ymddengys i chwi yn croesi wyneb y ganwyll; a phan yn teithio o'r parth isaf i'r parth uwchaf, hi aiff am fynyd dros y golwg tu cefn i'r ganwyll. Chwi ddeallwch oddiwrth hyn fod yn anmhosibl i'r farblen fyned y tu cefn i'ch llygad, sef i'r dwyrain. Rhaid iddi yn wastad fod o'ch blaen, sef rywle rhyngoch a'r gorllewin. Mae yr un mor annichonadwy i Merchyr a Gwener fod yn y dwyrain pan fyddo yr haul yn y gorllewin.

Dylaswn ddyweyd wrthych hefyd fod tröad dyddiol y planedau o amgylch eu pegynau i achosi dydd a nos yn wastadol o'r gorllewin i'r dwyrain. Os gellwch amgyffred y ddaear yn troi yn y dull hwn ar ei phegynau, chwi ganfyddwch ar unwaith fod yn rhaid i'r blaned Gwener, pan yn y parth uwchaf o'i chylch, ostwng ar ol yr haul, a bod yn seren hwyrol, ac i gyfodi o flaen yr haul pan yn y parth isaf o'i chylch, a bod y pryd hwnw yn seren foreuol. Mae yr un sylw yn briodol hefyd i'r blaned Merchyr, ond nis gall Merchyr fyned mor bell oddiwrth yr haul ag y gwna Gwener, am fod ei gylch o fewn cylch Gwener, ac am hyny yn llai.

Ni a debygem fod y meddwl wedi ymgynyg i chwi eisoes, sef, fod yn rhaid i Gwener a Merchyr ymddangos weithiau ar wyneb yr haul. Ond anfynych y cymer hyn le, yn enwedig gyda golwg ar Gwener, fel y sylwasom mewn rhifyn blaenorol. I egluro hyn, rhaid i ni gymeryd i fynu y cylchau eto, a'u gosod yn yr un sefyllfa ag o'r blaen. Nid yw cylchoedd y planedau yn sefyll yn yr un *plane*,—hyny yw, nid ydynt yn sefyll yn gymwys o fewn eu gilydd fel pe baent yn gorwedd ar y ford; ond y mae pob cylch yn oleddu mwy neu lai oddiwrth gylch y ddaear. Chwi wyddoch na all dau gylch groesi eu gilydd ond mewn dau fan yn unig. *Nodes* y gelwir y ddau fan hyny, oddiwrth y gair Lladin *nodus*, yn meddwl yn Gymraeg *cwlwm*. Yn awr, gosodwch gylch Gwener o fewn cylch y ddaear, ac i oleddu o ddeutu dwy neu dair troedfedd oddiwrtho. Fel o'r blaen, gosodwch y ganwyll yn y canol i bresenoli yr haul. Daliwch hwynt yn ddigryn o flaen eich wyneb, gan osod eich llygad wrth gylch y ddaear, yn gyntaf pan fyddo un o'r *nodes* yn syth i fynu, a'r llall wrth gwrs i lawr gyferbyn âg ef. Meddyliwch yn awr fod y farblen yn llithro yn gyflym ar hyd cylch Gwener. Pan fyddo y farblen yn y man hwnw o'r cylch sydd agosaf at eich llygad, ni fydd i'w weled yn pasio

dros wyneb y ganwyll, oblegid y mae dwy neu dair modfedd y naill ochr i'ch llygad. Yn nesaf, trowch y cylchau, a'r ganwyll o hyd yn y canol, nes y byddo un o'r *nodes* wrth eich llygad, a'r *node* arall gyferbyn âg ef y tu hwnt i'r ganwyll. Bydd yn rhaid i'r farblen yn awr, wrth lithro ar hyd y cylch, basio heibio eich llygad wrth y *node*, hyny yw, yn gymwys rhyngddo a'r ganwyll. Yn yr un sefyllfa y mae'r blaned Merchyr a Gwener gyda golwg ar yr haul ag yw y farblen a'r ganwyll. Gwelwch yn awr na all un o'r ddwy blaned hyn byth groesi wyneb yr haul ond pan fyddont yn y *node*, neu yn agos iawn ato. Pan yn y *node* yn gymwys ymddengys y blaned yn croesi canol wyneb yr haul. Os na fydd yn y *node* yn gymwys, ac eto o fewn cyferyd yr haul, gwelir hi yn croesi yn agosach at yr ymyl. Gellwch ddeall hefyd oddiwrth yr eglurhad hwn pa fodd y mae diffygiadau yr haul a'r lleuad yn cymeryd lle, fel y cawn ddangos cyn bo hir. Gelwir cylch y ddaear Yr *Ecliptic*, am na all diffyg ddygwydd, na Merchyr na Gwener groesi wyneb yr haul, oni fydd y lleuad a hwythau ar y pryd yn nghylch y ddaear, neu yn lled agos ato.

Tryfesur y blaned yw 7808 o filldiroedd, am hyny y mae o ran maintioli yn agos cymaint â'r ddaear. Pe y caech gyfleusdra i weled Gwener trwy ysbienddrych fawr, canfyddech ei bod yn gorniog fel y lleuad.* Weithiau ymddengys fel y lleuad pan yn dri diwrnod oed, ac felly yn y blaen. I egluro hyn eto, daliwch y cylchau a'r ganwyll o'ch blaen unwaith yn ychwaneg. Meddyliwch fod y farblen yn y parth pellaf o'r cylch oddiwrth eich llygad, bydd y ganwyll rhyngoch a hi, am hyny ni ellwch ei gweled gan y goleuni. Pe y gallech ei gweled y pryd hwn, byddai yr wyneb goleu oll tuag atoch. Felly hefyd y blaned Gwener neu Merchyr. Y maent yn anweledig pan fyddont y tu cefn i'r haul, o herwydd ei ddysgleirdeb, onidê y mae'r wyneb goleu oll tuag atom y pryd hwnw, a'r pryd hwnw yn unig. Fel y byddo y farblen yn esgyn i fynu tua pharthau uwchaf y cylch, y mae yn dyfod allan o oleuni y ganwyll, ac i'r golwg; ond fel y byddo yn esgyn mae yr wyneb goleu yn myned yn llai lai, a hyny hyd nes y cyrhaeddo y man hwnw o'r cylch sydd agosaf at eich llygad. Y pryd hwn bydd y wyneb goleu oll tuag at y ganwyll, a'r wyneb tywyll tuag atoch chwithau. Felly hefyd y ddwy blaned dan ein sylw, pan fyddont yn y man hwnw o'u cylchoedd sydd agosaf at y ddaear y mae eu hwyneb tywyll tuag atom. O'r man hwnw yn mlaen hyd nes y cyrhaeddo y man tu cefn i'r haul, bydd rhanau goleu y ddwy blaned yn cynyddu, fel y gwna y lleuad o'r newid i'r llawn. Mae hyn yn awr yn eithaf eglur i chwi, debygwn; o leiaf, nis gallwn ni ei wneuthur yn fwy eglur.

Mae y blaned hon yn troi oddiamgylch ei phegynau, fel y gwna y ddaear, i beri dydd a nos. I wneuthur tröad cyflawn, cymer dair awr ar hugain a rhyw fynydau. Y debycaf o'r planedau oll i'r ddaear yw Gwener. Y mae iddi awyrgylch a mynyddoedd, a digon tebyg fod arni hefyd foroedd. Er fod ei maintioli rywfaint yn llai na'r ddaear, mae yn

---

* Galileo oedd y cyntaf a ganfyddodd ddangosiadau Gwener, yn y flwyddyn 1611. Danfonodd y canfyddiad i William de Midicci i'w hysbysu i Kepler yn y dirgel-nodyn canlynol:—*Hæc immaturæ a me frustra leguntur o y.* Yr hyn o'u gosod mewn trefn a wnant i fynu y frawddeg ganlynol:—*Cynthiae figuras aemulatur mater amorum: Venus emulates the moon.*

ddwysach. Pwysa pownd ar y ddaear bymtheg wns a deg dram yn Gwener; am hyny gallem ni, drigolion y ddaear, gerdded arni yn agos mor rhwydd ag ar wyneb ein planed ni.

"A oes arni drigolion?" medd rhywun. Mae yn eithaf tebygol fod. Nid hawdd i ni gredu i'r Hollalluog greu byd mor hardd heb iddo ei fwriadu i fod yn gyfrwng bodoliaeth a dedwyddwch i drigolion, fel y mae y byd hwn i ni. Mae bwriad doeth a daionus gan Dduw yn mhob peth a greodd, fel sydd ganddo yn ei ragluniaeth foesol. Tad tirion yw. Molianus fyddo ei enw mawr yn dragywydd!

CANNIBALIAETH.

> "I spoke of most disastrous chances,
> Of moving accidents by flood and field,
> And of the Cannibals that each other eat,
> The Anthropophagi, and men whose heads
> Do grow beneath their shoulders."
>
> SHAKESPEARE—OTHELLO.

"A DDARFU i chwi ddarllen yn yr *Unitarian Herald* yn ddiweddar yr hyn y mae Henry Ward Beecher wedi bod yn ei ddyweyd am Gannibaliaeth?" ebe John, Tymawr, wrth Jacob, Tyhen.

"Na, nid wyf fi ddim yn medru darllen Seisneg," ebe Jacob, "ond mi a glywais fy meistr yn adrodd sylwedd y peth, ac yr oeddwn i'n meddwl ei fod yn dda dros ben."

"A pha beth, deydwch, yr ydych chi yn olygu wrth Gannibaliaeth?" ebe Robert y Northman.

Atebodd John, "Cannibaliaid y gelwir dynion sydd yn bwyta dynion ereill."

"Wel, 'nawr, John, beth pe baech chi'n deyd wrthyf fi sylwedd yr hyn a ddeydodd Beecher."

"Gwn na wnaf fi fawr o chwareu têg â Beecher wrth hyny; ond mi geisiaf roddi i chwi y sylwedd."

"Mi wn," meddai B., "pe bawn i'n ceisio genych ddyfod i fy nhŷ i, ac yn dywedyd wrthych fod genyf fi ddyn tew brâf, a fy mod yn dymuno arnoch ddyfod i fy helpio i'w fwyta, y gwnaech deimlo yn ddigofus iawn wrthyf. Ystyriech fi'n benwan."

Robert.—Wel, nid yw Beecher ddim yn mhell o'i le, yrwan; ond beth y mae o yn hèl ato?

John.—Byddwch dipyn yn amyneddgar, Robert, a chwi gewch glywed bob yn ychydig. "Nid oes dim dyn yn y dre'," ebe Beecher, "mor wael na wnai ddodi dyn i lawr a gynygai wneuthur gwledd oddiar gorff ei gyd-ddyn, a gwneuthur *stêcs* o hono, a'u bwyta."

Robert.—Dyna fwy na ŵyr o. Charwn i ddim trysto gormod i rai.

John.—Gwir, Robert, canys y mae rhai ag ydynt yn euog o waeth peth na hyny, a chewch weled nad yw Beecher ddim yn mhell o fod yn cytuno â chwi. Ond rhoddwch chwareu têg yn awr i fyned yn y blaen.

"Ni fyddai hyny ddim ond gwneuthur gwledd oddiar gorff dyn. Oh! na, ni feddylient hwy byth am fwyta ei glust, ei dafod, ei goes—Oh! na wnaent, nac un tamaid o'i gorff; ac eto, cewch eu gweled yn eistedd i lawr bob un, ac yn cymeryd enaid dyn i'w fwyta. Gwnant, siwr; edrychant am fanau tyneraf y lwynau, a gwahoddant eu cymydogion

i gael rhan o'r danteithion melus. Cymerant i fynu enw a chymeriad dyn, a phobant hwy uwch tân eu digofaint a'u malais, a llanwant yr holl ystafell â'r arogl. Rhoddant damaid i'w cymydogion, a chewch eu gweled yn taer-syllu ac yn wincio arno pan yn ei brofi. Y mae y rhai hyn oll yn bwyta dynion i fynu, ïe, dyn-fwytäwyr—cannibaliaid ydynt, bob yr un o honynt, a gwaeth. Byddent yn falch o allu dianc, wrth orsedd barn Duw, gyda'r esgusawd, 'Ni fwytëais i ond ychydig bach o'r ochr tu faes.' Y mae y rhai hyn yn bwyta'r eneidiau, rhanau gwerthfawrocaf a phwysicaf dynion. Ymfalchïant os gallant siarad gair yn anmharchus am gymydog, neu am ei wraig, neu am ei ferch, neu am ei fab; am aelod eglwys, neu am weinidog. Ac eto yn mhellach, carant, trwy ymadrodd naill-ochrog, hannerog, wneuthur argraff anffafriol ar feddwl rhywun am rywun arall; nid trwy ddywedyd dim yn blân, ond trwy daflu allan ryw hanner cyhuddiadau—rhyw ensyniadau câs, maleisus. 'Oh!' meddai dyn, 'nid oeddwn i ddim wedi clywed,' a ffwrdd âg ef at ei gymydog *Number Two*, a dywed wrtho, 'Mae Mr. Hwn-a-hwn yn dywedyd fel-hyn-a'r-fel am Mr. Hwn-a-hwn.' Ac meddai Mr. *Number Two*, 'Beth ych chi'n geisio ddeyd?' a ffwrdd âg ef wedi'n nerth ei draed, i gael ei adrodd wrth *Number Three*. A dyna *Number Two* a *Number Three* yn rhedeg i'w adrodd wrth Mrs. *Number Two* a Mrs. *Number Three;* a chyn pen nemawr amser y mae wedi ei wasgar dros yr holl dref. Y mae pob un, heb dâl, yn rhad ac am ddim, yn troi yn *bostman* y cythraul, gan fyned yma a thraw, yn mhob cyfeiriad, i wasgar negeseuau uffernol. A pha beth ydyw y canlyniad? Damnedigaeth i ryw greadur tlawd sydd yn anwybodus, neu sydd yn ddiniwed, neu sydd, os yn euog, yn teilyngu tosturi a help, yn hytrach na chondemniad. Ond ah! y mae y tamaid yn rhy flasus i'w golli. Dyma enaid gobaith dyn yn y byd yma, ac y mae gyda'r creaduriaid ar eu fforc, ac nis gallant lai na'i luo a'i gnoi, a'i roddi i rywun arall i'w luo a'i gnoi hefyd. Mae'r blâs mor hyfryd—gymaint wrth eu harchwaeth, fel y mynant i bawb ei brofi. Cannibaliaid yn wir—mae'r enw yn fil rhy dda iddynt—yn bwyta anrhydedd ac enw da dynion, ac yn ymlawenhau yn hyny; a hyny hefyd yn fynych pan nad ydynt yn gwybod fod y pethau a ddygir yn gyhuddiadau yn eu herbyn yn wir, pryd y mae'r tebygolrwydd mewn naw-deg-a-naw *case* o bob cant nad ydynt yn ddim ond celwydd.

"Geiriau noble, yn wir, ond dipyn yn llym," ebe Robert.

"Da dros ben," ebe Jacob, "dim un tipyn yn rhy lym."

"Adroddaf i chwi eiriau Shakespeare ar yr un pwnc," ebe myfyriwr ieuanc oedd wedi bod yn sefyll gerllaw er y dechreu:—

> "Good name, in man and woman, dear, my lord,
> Is th' immediate jewel of their souls:
> *Who steals my purse steals trash;* 'tis something, nothing;
> 'Twas mine, 'tis his, and has been slave to thousands;
> *But he that filches from me my good name*
> *Robs me of that which not enriches him,*
> *And makes me poor indeed.*—Othello.

Gelyn Athrod.

RHANIAD AMSER GAN YR HEBREAID.

Nis fu cenedl erioed nad oedd ganddi ryw ddull priodol iddi ei hun o ranu y flwyddyn, fel ag i gydweddu â dychweliad rheolaidd y tymhorau. Peth

pwysfawr iawn yn ngolwg yr Hebreaid oedd rhaniad y flwyddyn o herwydd en gwyliau a'u gwleddoedd.

Yr oedd ganddynt ddwy flwyddyn—un yn *wladol*, a'r llall yn *santaidd*. Dechreuai y flwyddyn *wladol* ar y newydd-loer gyntaf ar ol Alban Elfed, sef yr unfed ar hugain o fis Medi. Yr oeddynt y pryd hwn wedi newydd orphen y cynhauaf a chasglu eu ffrwythau. Credent mai dyma yr amser o'r flwyddyn y crewyd y byd. Parasant i ddechreu eu blwyddyn ar y newydd-loer hon hyd eu gwaredigaeth o gaethiwed yr Aipht. Ystyrient y dygwyddiad hwnw yn un o'r rhai mwyaf nodedig yn hanes eu cenedl, a chredent iddo gymeryd lle oddeutu Alban Eilir, sef yr unfed ar hugain o Fawrth, am hyny gwnaethant y tymhor hwnw yn ddechreuad eu blwyddyn *santaidd* neu *eglwysig*. Yr hen flwyddyn a gyflwynid yn unig i orchwylion gwladol, ond eu gwleddoedd a gadwent yn ol y flwyddyn eglwysig. Am na feddent ar reolau ac egwyddorion seryddol, y newydd-loer oedd cyfnod dechreuol eu blwyddyn. Cyn gynted ag y canfyddid hi yr oedd eu mis yn dechreu, am hyny nid oedd nifer y diwrnodau yn wastad yr un faint bob mis. Eu hunig reol sicr oedd fod y ddau fis dechreuol yn cynwys deg niwrnod ar hugain; a chynwysai eu blwyddyn ddeuddeg o'r misoedd lloeraidd. Ond yn gymaint â bod y misoedd hyn yn llai o un diwrnod ar ddeg na chylchdro blynyddol yr haul, yr oedd pob blwyddyn yn dechreu gymaint â hyny yn gynt na'r flwyddyn flaenorol. Gwnelai hyn mewn deng mlynedd ar hugain flwyddyn gyfan, yr hon, heb ryw ddyfais i wneuthur i fynu y golled, a fuasai yn ddigyfrif. Er mwyn lluddias hyn ychwanegent at bob tair blynedd fis, yn cynwys tri ar ddeg ar hugain o ddiwrnodau, yr hwn a alwent *Veaddar*, am mai yn nesaf at fis *addar* y gosodid ef yn y flwyddyn hòno.

Y canlynol yw enwau y misoedd Hebreaidd, yn nghyd â'r misoedd a gyferbyniant iddynt yn ein blwyddyn ni.

1	Nisan, yn cyfateb i ran o		Fawrth ac Ebrill.
2	Tyar	„	Ebrill a Mai
3	Sivan	„	Mai a Mehefin
4	Tamuz	„	Mehefin a Gorphenaf
5	Ab	„	Gorphenaf ac Awst
6	Elul	„	Awst a Medi
7	Tizri neu Ethanine		Medi a Hydref
8	Marchesvan neu Bul		Hydref a Tachwedd
9	Chisleu	„	Tachwedd a Rhagfyr
10	Tebeth	„	Rhagfyr a Ionawr
11	Shebet	„	Ionawr a Chwefror
12	Addar	„	Chwefror a Mawrth
13	Veaddar, sef bob tair blynedd, fel y sylwasom yn barod.		

Yr oedd gan yr Hebreaid, heblaw y flwyddyn gyffredin, un a alwent y flwyddyn *Sabothol*, yr hon a ddygwyddai bob saith mlynedd. Ni chaniateid i neb y flwyddyn hòno i wrteithio y tir; a phob peth a dyfai o hono ei hun a berthynai, nid i berchenog y tir mwy nag i ereill, ond i bawb yn gyffredin. Y flwyddyn nesaf i'r seithfed flwyddyn sabbothol oedd blwyddyn y *Jubili*, yr hon a ddygwyddai bob hanner can mlynedd. Nid oedd yn ganiatâol ychwaith i neb weithio ar y tir y flwyddyn hòno hefyd. Yr oedd pob un oedd wedi gwerthu ei etifeddiaeth yn dyfod i feddiant o honi yr ailwaith y flwyddyn hon; ac os na fuasai efe byw, yr oedd ei berthynas agosaf yn cymeryd meddiant o honi. I'r dyben hyn

cadwai pob teulu Hebreaidd gofrestr o'i achau, yr hon a gyrhaeddai yn ol i amser y patrieirch. Am hyny anfynych iawn y gwnaid camsynied ar flwyddyn y Jubili yn nghylch perchenogion cyfreithlon yr etifeddiaethau. Yn mlwyddyn y Jubili hefyd yr oedd pob caethwas i fod yn rhydd.

Yr oedd gan yr Hebreaid hefyd raniad amser a elwid *wythnos*, yn cynwys saith niwrnod. Chwech o honynt a gyflwynid i orchwylion gwladol, a'r seithfed dydd i wasanaeth crefyddol. Arferid weithiau y frawddeg *wythnos o flynyddau*, i ddynodi saith mlynedd. Cawn hefyd *saith wythnos o flynyddau*, yr hwn gyfnod sydd gyfartal i naw mlynedd a deugain, sef yr amser rhwng dwy Jubili.

Dechreuai y diwrnod Hebreaidd ar ostwng haul, sef yn yr hwyr, a diweddai yr hwyr dranoeth. Arferent y frawddeg "Hwyr a boreu," neu "Nos a dydd," a rhanent y diwrnod yn amser boreuol y genedl yn dair rhan, sef boreu, nawn, a nos. Rhaniad diweddarach oedd dydd a nos yn ddeuddeg awr yr un. Oddiwrth y Rhufeiniaid, yn ddigon tebyg, y deilliodd y rhaniad hwn. Dyma'r rhaniad mewn arferiad yn amser Crist, sef dydd a nos yn bedair rhan gytartal yr un. Gelwid rhanau y nos *gwyliadwriaethau*. Cynwysai pob rhaniad dair awr, y cyntaf yn dechreu ar godiad haul, a'r trydydd yn diweddu ar ei ostyngiad. Pan fyddai yr haul ar y cyhydedd, sef dydd a nos yr un hyd, cyfatebai eu trydedd awr o'r dydd hwy i'n naw o'r gloch ni, eu nawfed i dri o'r gloch prydnawn, a'u deuddegfed i chwech yn yr hwyr. Chwi ddeallwch nad oedd eu horiau hwy yr un faint bob amser o'r flwyddyn. Yn y dydd oriau yr haf oeddynt yn hwy na'r oriau yn y gauaf, ac oriau y nos yn fyrach; ac yn y gwrthwyneb yn y gauaf.

Cymaint â hyna ar raniad amser yn mhlith yr Iuddewon, gan obeithio y bydd yn gynorthwy i rywrai i ddeall y cyfeiriadau hyny yn yr Ysgrythyrau ag ydynt yn dal perthynas â rhaniadau y flwyddyn, a dydd a nos.

NATUR A DYBEN GWYRTHIAU.

Dichon y meddylia rhai nad yw yn gydweddol â doethineb Duw i adael ei greaduriaid mewn eisieu o gynorthwy achlysurol. Dywedant y creasai Bôd o anfeidrol ddoethineb ei weithredoedd ar y cyntaf mor berffaith, fel na fuasai eisieu y fath gynorthwy. Ond yr unig reswm paham y mae yn ddoeth mewn dynion i amcanu at hyn yw, o herwydd na allant fod bob amser yn bresenol gyda'u gweithredoedd, neu ynte y byddai yn drafferthus i dalu sylw parhaus iddynt. Ni fyddai ychwaith o nemawr gwahaniaeth gyda golwg ar eu gweithrediad, p'un a fyddent yn bresenol ai peidio. Ond yn gymaint â bod Duw yn mhob man yn bresenol, ac yn wastad yn cynal cyfreithiau y greadigaeth, ni fyddai newid ei chwrs yn arwyddo na gofal na thrafferth ychwanegol.

Hefyd, y mae o'r pwys mwyaf i ddybenion mawr y greadigaeth resymol fod y Gwneuthurwr Hollalluog yn cael ei *ystyried* yn bresenol gyda ei weithredoedd. Am hyny, er dim a wyddom ni, y goreu o bob dychymyg, fe ddichon, yw yr un a olyga nad yw y gweithrediad a'r cyfryngiad Dwyfol byth yn hollol ddieisieu yn y greadigaeth; ac er mai doeth, ac hyd yn nod angenrheidiol, oedd sefydlu *cyfreithiau cyffredinol*, eto, gall ymadawiad achlysurol oddiwrthynt fod yn fwy effeithiol gyda golwg ar y dyben mawr nag unffurfiaeth difyfl.

Gyda golwg ar ddynion, ac, efallai, pawb gweithredwyr moesol, ym-

ddengys yn eglur fod priodolder yn ngwaith y Bôd Dwyfol yn cyffroi eu sylw at ei bresenoldeb a'i lywodraeth trwy *ymadawiadau* achlysurol oddi wrth gyfreithiau y greadigaeth; oblegid yn y modd hwn yr ydym yn cynal i fynu yn hawdd yr ystyriaeth o'n cysylltiad â Duw, a'n hymddibyniad ar ei fawredd. Pryd bynag y mae ymddangosiadau yn dyfod yn *unffurfiol* a *gwastadol*, y mae dynion yn cynefino â hwynt; y maent yn darfod tynu eu sylw. Mae yn bosibl i genedlaethau o ddynolryw, i'r rhai ni ddysgwyd dim erioed am Dduw, dreulio eu holl fywyd yn mhresenoldeb rhyfeddodau y greadigaeth, heb erioed ddyrchafu eu meddyliau at y Crëwr Mawr. Ond terfysger cysylltiad cynefinol achos ac effeithiau, a bydded i bethau ddygwydd yn groes i ddysgwyliadau a hir brofiad dynion, yna bydd eu sylw yn uniongyrchol yn cael ei gyffroi, ac ni ymfoddlonant nes y deallont yr achos digonol o'r fath ddygwyddiad dyeithr, ac nes y gwyddont, os gallant, beth a'i hachosodd, ac i ba ddyben y cymerodd le. Ychydig ystyriaeth a'u darbwyllant i gydnabod mai Efe, ac Efe yn unig, yr hwn a sefydlodd gwrs natur, a all ei chyfnewid pryd y gwelo yo dda. Maent felly yn cael eu cyffroi o gysgadrwydd anystyriaeth.

Pryd bynag gan hyny y terfysgir cwrs natur trwy weithrediad gwyrth wirioneddol, gall dynion fod yn sicr fod bŷs Duw yn y gwaith, ac am hyny y dylai eu sylw gael ei dynu at y weithred.

Mewn gwirionedd, nid priodol yw dywedyd fod cyfreithiau y greadigaeth yn cael eu troseddu mewn gwneuthuriad gwyrthiau, oblegid nid ydynt ond effaith gallu digonol yn y greadigaeth yn ymegnio ar amserau priodol. Gellid cydmaru y gallu i ddyn yn cynorthwyo cylionen neu ryw drychfilyn yn ymdrechu âg anhawsderau na all o hono ei hun orchfygu. Ond nid yw yr olwg hon ar wyrthiau yn un modd yn wrthwynebiad i'r defnydd o honynt a amddiffynir yma; oblegid beth bynag a ddengys gyfryngiad gallu *goruwchddynol*, raid gael ei gyfrif i weithrediad Duw yn gyfryngol neu yn uniongyrchol; ac nid yw yn bosibl i unrhyw grefydd gael profion cadarnach na'r fath weithredoedd.

Mae rhai yn wir wedi dyweyd nad oes un cysylltiad naturiol ac angenrheidiol rhwng *gwyrthiau* ac *athrawiaethau*. Dichon y gallasai yr Iuddewon a phaganiaid yn yr hen oesoedd wneyd y fath honiad gyda difrifoldeb, y rhai oeddynt yn credu mewn dewinyddiaeth; ond yn yr oes hon nid oes eisieu ofni dyweyd mai ofer-siarad yw y fath honiad, ac nad yw yn teilyngu ateb neillduol. Pa fodd bynag, bydd yn bryd rhoddi ystyriaeth iddo pan y cyfarfyddir â rhyw berson deallus a ddywed yn ddifrifol ei fod yn credu y gwyrthiau, ond nid yr athrawiaethau. Dywed Mr. Bayle i Spinoza ei hun addef "pe gallasai efe gredu adgyfodiad Lazarus, y rhoddai i fynu ei gyfundraeth ar unwaith, gan gofleidio ffydd gyffredin y Cristionogion."

Gellid sylwi, fel rheswm dros ddefnyddioldeb gwyrthiau, p'un fwyaf cyffredinol yw llygriad crefydd, ac am hyny mwyaf angenrheidiol yw datguddiad, ai mwyaf anaddas ac analluog yw dynion i ganfod profion *mewnol* o ragoriaeth crefydd Ddwyfol, ac am hyny mwyaf i gyd sydd arnynt eisieu profion *allanol* y fath ag y mae gwyrthiau yn weinyddu.

Mae yn bosibl, ond nid yn debygol, fod yn bodoli fodau deallus, anweledig, uwch na ni, a mwy galluog, a'u bod yn defnyddio eu gallu yn y fath fodd ag i ymddangos i ni fel cyfryngdod Duw; ond byddai yn gamddefnyddiad o alluoedd uwchafol mor niweidiol, fel nas gellir credu y caniatâi Bôd doeth a daionus y fath beth. Yn wir, pe buasai hyn yn

bod, ni feddasai y Bôd Dwyfol un modd i wneuthur ei allu a'i fwriadau yn adnabyddus i'w greaduriaid, pa gymaint bynag a fuasai eisieu ei gyfryngdod; oblegid ni fuasai yn eu gallu i amddiffyn eu hunain rhag bodau dichellgar a maleisus a ymhyfrydent i'w twyllo a'u camarwain. Pe caniateid i'r fath fodau wneuthur gwyrthiau, gallwn fod yn sicr y byddent y fath ag y gallai dynion rhinweddol a deallus ddynoethi eu twyll.

Pa fodd bynag, ar y cyfan, nid yw yn y mesur lleiaf yn debygol i neb bôd erioed, ond y Goruchaf ei hun, wneuthur gwyrth wirioneddol, ac am hyny nad yw yr holl ryfeddodau nad yw Duw yn dal cysylltiad â hwynt ond dyfais a thwyll, y fath nas gallant hudo neb ond yr anwybodus a'r hygoelus; ac y mae yn ngallu dynion deallgar, â chanddynt gyfleusdra i chwilio i mewn iddynt, i ganfod trwyddynt ac i'w dynoethi.—J. P.

ESPONIADAU.

Gen. xxvii. 39. *Yna yr atebodd Isaac ei dad, ac a ddywedodd wrtho, Wele, yn mrasder y ddaear y bydd dy breswylfod, ac yn* MYSG GWLITH Y NEFOEDD ODDI UCHOD.] Byddai Palestine fel yr Aipht yn hollol anghyfaneddol oni bai fod gwlith y nefoedd a ddisgyn yn y nos yn adferu y bywyd llysieuawl. Mae y gwlith mor drwm, yn enwedig yn yr haf, nes y gellid meddwl i wlaw trwm ddisgyn yn y nos. Am hyny, nid oes un fendith yn fwy dymunol yn y dwyrain na digon o wlith, a dyma'r rheswm yr addewir gwlith y nefoedd i'r Israeliaid. Gellid meddwl yn yr hwyr, ar ol y gwrês annyoddefol, fod y coedydd a'r borfa yn gwywo, ond boreu dranoeth edrychant mor ffres a bywiog ag erioed. "O fynyddoedd Gilboa," medd Dafydd, yn ei alar ar ol Saul, "na ddisgyned arnoch chwi na gwlith na gwlaw!" Ni allasai un melldith fod yn fwy.

Luc xiii. 26. *Yna y dechreuwch ddywedyd, Ni a fwytasom ac a yfasom yn dy wydd di, a thi a* DDYSGAIST YN EIN HEOLYDD NI.] Yr oedd yn arfer gan ddysgawdwyr Iuddewig ddysgu yn yr heolydd. Dywedir am Rabbi Iochanan ben Zacchai, "ei fod yn eistedd yn nghysgod y deml, ac yn esponio trwy y dydd." Yr eglurhad ar y geiriau yw, "gan fod y deml yn gaut cufydd o uchder, cyrhaeddai ei chysgod yn mhell i'r ystryd o flaen mynydd y tŷ; a chan fod yr ystryd yn helaeth, ac yn gallu cynwys llawer o ddynion, yno yr oedd yn esponio, oherwydd y gwrês, oblegid ni allasai un ysgoldy gynwys nifer y gwrandawyr." Yr oeddynt wedi bwyta ac yfed, meddent, yn ei wydd ef, ac yr ydoedd yntau wedi dysgu yn eu heolydd, hyny yw, yr oeddynt wedi bod yn adnabyddus ac yn gyfeillgar iawn â'u gilydd. Mae yr Iesu yn ateb, mai nid manteision allanol, a phethau o'r fath hyny, fydd yn gwneuthur neb yn deilwng o'r gwobrwyon a ddysgwylir yn nheyrnas y Messiah, ond rhinwedd a bywyd cyson âg egwyddorion ei addysgiadau.

Jer. xlix. 19. *Wele, fel* LLEW Y DAW I FYNU ODDIWRTH YMCHWYDD YR IORDDONEN *i drigfa y cadarn.*] Mae y desgrifiad a rodda Maundrell yn nghylch yr Iorddonen yn tafiu goleu ar gymhariaeth y prophwyd yn y fan yma. "Wedi myned i waered," medd y trafaelwr, "i lan *(bank)* cyntaf yr Iorddonen, yr ydych yn cerdded oddeutu dau cant o latheni cyn yr eloch at yr ail lan, sef glan y dŵr. Mae y gwastadedd hwn mor llawn o lwyni a choed, megys tamarisk, helyg, oleander, a'r cyffelyb, fel na allwch weled yr afon nes yr eloch trwyddynt. Yn y tewlwyni hyn yn yr hen oesoedd (ac y mae felly hefyd yn awr) y llochesai llawer math

o greaduriaid rheibus. Yn amser llifogydd ânt i fynu ar hyd y wlad i ysglyfaethu. At hyn y cyfeiria y prophwyd, "fel llew y daw i fynu oddi wrth yr Iorddonen." (Taith o Aleppo i Jerusalem, tudal. 82.) Yn unol â hyn darllenwn yn Ammianus Marcellinus (llyfr xviii. pen. 17) "fod llewod yn ddirif yn crwydr-wibio trwy gorseni a thewlwyni afonydd Mesopotamia. Rhai tra sychedig yw creaduriaid rheibus, am hyny llochesant yn wastad yn nghymydogaeth dŵr; hefyd, mae y fath leoedd yn fwy cyfleus iddynt i ddal eu hysglyfaeth, oblegid mae creaduriaid o bob math yn cyrchu at y dŵr i dori eu syched. Yn Affrica hefyd, yn agos i ddŵr fynychaf mae edrych am loches y llew. Mae ar ei wyliadwriaeth yno yn wastad, yn enwedig os bydd yn newynog; a phan y dêl creadur, megys hŷdd neu giraffe, i yfed, llama y bwystfil yn ddisymwth ar ei gefn, gan ei ddryllio mewn eiliad â'i grafangau a'i ddannedd arswydus.

1 Cor. x. 25. *Beth bynag a werthir yn y* GIGFA, *bwytewch.*] Gair o darddiad Lladinaidd, medd rhai, yw *makellon*, a gyfieithir yma *cigfa*. Mae y gair Lladin *macellum* yn meddwl *marchnadfa*. Dywedir i'r gair darddu oddiwrth un o'r enw Macellus, dyn o gymeriad gwael. Cafodd ei gondemnio i farw am rywbeth neu gilydd, a throwyd ei anedd yn dŷ marchnad i werthu cig; ond ar ba sail y dywedir hyn, nis gwyddom. Dywed ereill mai gair Groeg ydyw. Ond gan nad beth am darddiad y gair, yr ydys yn sicr fod yr offeiriaid paganaidd yn danfon y cig oedd yn weddill ganddynt i'r *makellon* i'w werthu, os na allent hwy ei werthu yn y deml. Swyddfael neu eu heiddo hwy oedd y gweddill wedi yr aberth. Yr oedd yn rhan o'u cyflog, fel yr oedd y degwm gan yr offeiriaid Cristionogol mewn oesoedd diweddarach. Prynid cig y temlau fynychaf gan y tlodion, oblegid gwerthid ef yn rhatach na chigoedd ereill, am fod y goreu o hono wedi ei ddifa yn y deml. Yr oedd y cig hwn yn rhan fawr o ymborth y tlodion. Mae yn debyg fod y tlodion Cristionogol hefyd yn ei brynu yn Corinth, a threfydd ereill lle yr oedd temlau paganaidd. Rhoddai hyn dramgwydd mawr i rai o'r brodyr, oblegid meddylient fod bwyta y fath ymborth yn eu gwneyd yn gyfranogion o'r addoliad paganaidd. Achosai yr arfer weithiau gynhwrf yn yr eglwys. Cynghor yr apostol iddynt oedd bwyta beth bynag a werthid yn y gigfa, oblegid ynddo ei hun nid oedd dim niwed yn y peth; ond os trwy fwyta o hono y byddent yn rhoddi tramgwydd i frawd llai ei wybodaeth, cynghorai hwynt i beidio, a thrwy hyny i barchu cydwybod eu brawd. Yr egwyddor yw, peidio, hyd byth ag y gallom, roddi tramgwydd i'n brodyr Cristionogol mewn pethau dibwys. Er siampl, os oes yn yr eglwys rai yn meddwl fod eistedd mewn gweddi yn beth anmharchus i Dduw, dylem beidio gwneuthur hyny, nid o herwydd fod dim yn y peth ynddo ei hun, oblegid gall dyn fod mor ddefosiynol yn eistedd â phan yn sefyll, ond i beidio rhoddi tramgwydd i gydwybodau brodyr sydd wanach eu deall. Dylem gydymdeimlo, hyd byth ag y gallom, â gwendidau ein gilydd. Os bydd yr egwyddor yn un bwysig, peth arall yw hyny.

MR. GOL.—Caniatewch i mi alw, trwy gyfrwng YR YMOFYNYDD, eich sylw at 1 Cor. xv. 29, 30. Beth feddylia yr apostol wrth *fedyddio dros y meirw?* A ydyw yn cyfeirio at ryw ddefod yn mhlith y Cristionogion yr amser hwnw? I mi, o leiaf, y mae'r geiriau yn rhai tywyll iawn, am hyny, carwn gael eich meddwl arnynt. Gan deimlo yn ddiolchgar i

chwi am y goleuni ydych yn daflu o bryd i bryd ar fanau tywyll yn yr Ysgrythyrau, a dymuned i'ch misolyn rhagorol bob llwyddiant i symud anwybodaeth a rhagfarn, y gorphwys yr eiddoch, &c., H. Jones.

Undodwr.—Yr unig ateb a allwn roddi i'ch gofyniad yn nghylch Undodiaid Pontantwn, ger Llandefeilog, sîr Gaerfyrddin, yw iddynt dòri allan o gynulleidfa y Bedyddwyr, yn Llangedeyrn, o ddeutu y flwyddyn 1820. Ymddengys iddynt lyncu yr egwyddorion Undodaidd dan weinidogaeth Mr. William Thomas, o Langedeyrn, yr hwn fu yn weinidog galluog a pharchus i'r gynulleidfa am flynyddau lawer. Dyn ydoedd, wrth bob hanes, o alluoedd treiddgar, ac a weithiodd ei ffordd i Undodiaeth, o blegid Trindodwr oedd yn y dechreuad. Pan oedd yn ddyn ieuanc bu dadleu mawr yn llawer o eglwysi Anghydffurfiol Deheubarth Cymru ar bynciau crefydd ac athrawiaeth y Drindod. Cofleidiodd llawer yr amser hwnw y syniadau Ariaidd, a rhai, fel Mr. William Thomas, y syniadau Undodaidd. Bu hyn yn achos o derfysg mawr ac ymraniad. Un achos o'r cyffröad, mae yn ddigon tebyg, oedd ysgrifeniadau Dr. Priestley, y rhai oeddynt y pryd hwn yn *droppo* yn gyflym, un ar ol y llall, o'r wasg. Gwnaeth Undodiaeth gynnydd mawr yr amser hwnw yn Nghymru a Lloegr; o blegid yr oedd dynion yn dadleu ac yn sychedu am wybodaeth grefyddol. Nid oes dim sydd yn fwy niweidiol i wirioneddau crefyddol na chysgadrwydd, difaterwch, a bydoldeb. Ond i ddychwelyd at Bontantwn. Bu Mr. William Thomas farw yn y flwyddyn 1813, os nad ydym wedi cael ein cam-hyfforddi, pan yr apwyntiwyd un Mr. James Davies, o Rydargaeau, yn weinidog yn ei le. Dywedir i Mr. Davies, yn mhen amser, droi allan yn Drindodwr lled selog; ac am hyny, wedi marw Mr. William Thomas, na bu fawr esmwythder mwyach i Undodiaid y gynulleidfa; a'r canlyniad fu iddynt ymadael. Aethant yn gyntaf i Bontantwn, ar dir y Wempa. Oddiyno symudasant i'r Gelli yn y flwyddyn 1825, lle y buont yn ymgynull i addoli hyd 1846, pryd y bu farw Mr. Edwards, yr hwn a ganiatâi iddynt dŷ cwrdd ar ei fferm. Ni fu ganddynt weinidog sefydlog; ond bu amryw o'r hen weinidogion yn pregethu iddynt yn awr ac yn y man, pan y delent ar eu tro. Gallem enwi yn eu plith Mr. Benjamin Phillips, o St. Clears; Mr. David John, o Ferthyr; Mr. John Griffiths, Llandyfan; Mr. William Williams, o Gapeldyddgau, a myfyrwyr Athrofa Caerfyrddin. Yr ydym yn cofio ein bod mewn cwrdd chwarter yn y Gelli, yn 1838, os ydym yn iawn. Y peth a wnaeth fwyaf o argraff ar ein meddwl yno oedd araeth Mr. James, o Gellionen, ar "râs cadwedigol," sef pwnc y gynadledd. Er iddo lefaru dros dri chwarter awr, nid ymddangosodd yr amser i ni yn fwy nag ychydig fynydau; a theimlem yn flin iddo orphen mor gynted. Yr oedd ei eiriau yn rhedeg fel ffrwd, a'i ddrychfeddyliau hardd a bywiog yn rhoddi bywyd newydd yn y gwrandawyr. Oh! y mae'r tafod hyawdl hwnw yn awr yn ddistaw yn mynwent Pantydefaid! Mae cof genyf sylw a wnaeth un o'r gweinidogion y prydnawn hwnw wrth gerdded i Gaerfyrddin. Yn ddisymwth dywedodd, gan roddi nerth i'r aceniad â'i law, "Os bu dyn erioed yn *inspired*, yr oedd Mr. James heddyw." Nid oes genym ragor o wybodaeth i roddi i chwi am Undodiaid Pontantwn. Wrth bob hanes yr oeddynt yn ddynion a ddygent fawr sêl dros y gwirionedd, ac o ymarweddiad teilwng o'u ffydd. Y maent oll yn awr wedi canu yn iach i'r fuchedd hon. Mrs. Edwards, o'r Gelli, yr hon a

gladdwyd yn ddiweddar, oedd yr olaf. Nid yw'r syniadau Undodaidd, er hyny, wedi marw yn hollol yn y gymydogaeth, ac y mae yn bosibl iddynt eto, rywbryd, ail-flaguro.

Y FODRWY RYFEDDOL.

Y MAE chwedl am ryw dywysog, yr hwn oedd yn berchen ar fodrwy ryfeddol, pa un a bigai ei fŷs pryd bynag y gwnai rywbeth allan o le. Rhoddwyd *hi* iddo i'w gynorthwyo bob amser i gadw ei hunan yn uniawn a da; a dywedwyd wrtho mai cyhyd ag y gwisgai *hi* y llwyddai.

Ar y cyntaf rhoddai heibio ystôr fawr o gyfoeth trwy wasanaethgarwch y fodrwy; ond yn mhen amser dechreuodd ofidio, am ei fod mor fynych yn cael ei argyhoeddi gan ei phigiadau, ac yn cael ei attal mor aml rhag cyflawni ei ddymuniadau. Un diwrnod gosododd ei galon ar gyflawni rhywbeth a wyddai yn ddigon da yn flaenorol ei fod yn ddrwg, o genfigen at rybuddion y fodrwy; ond *hi* a'i pigodd mor llym, fel y tynodd hi oddiar ei fŷs mewn nwyd ddrwg, ac a'i taflodd ymaith. O'r fynyd hòno allan syrthiodd i ffyrdd drwg ac anffodion bywyd, ac yn y diwedd a ddaeth i gyflwr prudd.

Yn awr, nid yw hon ond chwedl ddifyr, er ein cynorthwyo, feddylir, i ddeall gwirionedd pwysig. Y mae genym, bawb o honom, rywbeth tebyg i fodrwy ryfeddol y tywysog, pa un a'n cerydda pan y cyflawnom unrhyw ddrwg, ac a'n gwna yn anesmwyth. Gwyddom yn ddigon da, bawb o honom, os dywedwn rywbeth nad yw wir, neu os cyflawnwn rywbeth y gwyddom na ddylem ei gyflawni, neu ein bod yn amhëus y dylem ei gyflawni, y teimlwn rywbeth yn dufewnol a'n gwna yn anesmwyth, ac ymddengys fel yn dywedyd wrthym ein bod yn euog —hyny yw CYDWYBOD. Cydwybod sydd debyg i'r *fodrwy ryfeddol.*

Cyf. E. CYNON.

GYDA'R TELEGRAPH.

YR wyf yn meddwl mai un o'r pethau mwyaf cywrain a glywais i erioed, a'i gymeryd gyda'i gilydd, mewn cysylltiad â'r *Electric Telegraph*— Pellebyr Trydanawl, neu'r Gwefr-hysbysydd, os rhaid cael Cymraeg— yw'r ystori ganlynol a gefais gan un o *cashiers y Bank of England.* Fe allai dy fod di, ddarllenydd, wedi ei glywed o'r blaen. O bosibl ei fod wedi bod yn argraffedig o'r blaen. Sicr wyf ei fod yn haeddu bod, ac yn llythyrenau goreu YR YMOFYNYDD.

"*Once upon a time*," i gael dechreu y modd y dechreua plant bach yr ysgol—unwaith yn yr amser gynt, ar un nos Sadwrn, yr oedd y llanciau yn y sefydliad rhagenwedig yn methu yn glir â mantoli'r cyfrifon; pallai'r *balance* yn dêg â dyfod yn iawn o fewn i gan punt—yr oedd yr arian gan punt yn fyr o ddyfod i gyd-daro â'r llyfrau. Yr oedd hyny yn beth difrifol iawn yn y sefydliad bach hwnw—nid yr arian wyf yn feddwl, ond y coll-gyfrif yn yr *arithmetic*, oblegid y mae yn achosi byd o siarad ac o chwilio i mewn. Clywsom fod gwall yn y mantoliad wedi cadw *delegation* o glercs o bob swyddfa ar waith ambell dro trwy'r nos. Gwnaethwyd wb-wb fawr ar ol y can punt yma, wrth gwrs, fel pe buasai yr hen foneddiges o *Thread-needle Street* mewn perygl o fod yn y "Gazette" o'u heisieu. Yn ffodus, ar foreu'r Sul, tarawodd ar feddwl un clerc (ar ganol y bregeth, digon tebyg, pe gwybuasid y gwir)

—tarawodd lled-dybiaeth o'r gwir dros ei feddwl, yn gyflymach na fflach y *telegraph* ei hun. Dywedodd wrth y prif *gashier*, boreu dydd Llun, fod y camsyniad fe allai, wedi dygwydd wrth bacio rhai o'r *boxes* o arian bathol i'r West Indies, y rhai a ddanfonwyd i Southampton i gael eu shipio. Gweithredwyd yn union ar yr awgrymiad. 'Nawr, dyma lle yr oedd *race,—lightning against steam*—mellt yn erbyn ager, a'r ager wedi cael wyth awr a deugain o flaen! Yn union dyna'r cwestiwn yn cael ei ofyn, "A yw'r llong wedi gadael y porthladd?"

"Y mae yn codi ei hangor yn awr," oedd yr ateb.

"Stopiwch hi," ydoedd ysgrech uchel y *telegraph*.

Gwnaethwyd hyny.

"Mynwch y *boxes* sydd wedi eu nodi fel hyn a'r fel ar y *deck*, a phwyswch hwy yn ofalus."

"Y maent yn cael eu pwyso, ac yr ydys yn cael un yn droseddydd—yn drymach o un *packet* o gan punt nag y dylai fod.

"Gadewch iddi fyned," meddai'r *telegraph* hynod.

Y mae can punt yn rhagor yn cael eu dodi at gyfrif pobl y West Indies, ac y mae'r gwall yn cael ei gywiro heb edrych i mewn i'r *boxes*, ac heb oedi taith y llong gymaint âg un awr. 'Nawr, dyma beth allwn ni alw yn "*doing business*." G. L.

Y BUDGET.

Beth yw hwnw? meddai Will y Gôf. Cŵd y Llywodraeth ydyw, Will bach. O'r cŵd hwnw y mae swyddwyr y llywodraeth (ac i'w plith rai segur-swyddwyr) yn cael eu talu. Mae'r cŵd yn llawnach, Will, er pob pibellaid o dobacco wyt yn ysmocio, pob cwpanaid o dê wyt yn yfed, a phob llwyaid o siwgr wyt yn roddi yn dy dê i'w felusu. Dywedir fod y cŵd yn llawnach nag arferol eleni. Ni wyddom ni pa sawl mil o bunnau sydd yn weddill wedi talu pob gofynion. Dywedir fod rhyw swm fawr iawn—dim llai na miliwn a hanner o bunnau! Pe buasai y Toriaid yn cadw y cŵd, digon tebyg y buasai miliwn a hanner yn rhy fach. Dywedir fod Mr. Lowe, Canghellydd y Trysorlys, yr hwn sydd yn cadw llinynon y cŵd, o herwydd y gweddill mawr sydd ganddo, yn bwriadu gostwng trwydded y gwyr hela sydd yn cario gynau, a pheri i Twm y crŷdd, Harri y cobler, a Hodge y ffermwr, sydd yn ymhel tipyn â gwn i saethu adar bach oddeutu Nadolig, ac ambell i ysgyfarnog, os cant gyfle, i dalu cymaint am y drwydded â'r *'squire* yn y Plâs Gwyn. Mae hyn yn rhoddi boddlonrwydd mawr yn rhai manau, ond nid i Twm, Harri, a Hodge. Mae Mari Penbank a Shiân Tydraw hefyd i gael melusach tê nag a gawsant erioed o'r blaen. Dim llai na hanner y *duty* ar y siwgr, sydd yn melusu bywyd, i gael ei dynu i lawr! Y mae Mr. Lowe wedi gwneuthur cymwynas hefyd â'r *packmen* sydd yn gwerthu gwnau sidan i'r gwragedd heb yn wybod i'w gwyr, ac o'r diwedd yn gosod y gwyr, na wyddent ddim am y peth, yn y *county court*. Y mae iddynt hawcian faint a fynont o hyn allan heb *license*. *Blue* fydd pob gŵn sidan a chottwn weithian yn ei bac. Ceiniog hefyd i gael ei chnocio ymaith o'r *income tax!* Dyna beth mawr! Caiff Will y gôf weithian ddwy bibellaid o dobacco am un oedd yn gael o'r blaen. O, na, yr ydym wedi camsynied, nid Will, druan, gaiff y fantais o'r geiniog yna, ond y gwr y mae Will yn talu y rhent iddo. Mae Mr. Lowe hefyd wedi rhoddi boddlonrwydd mawr i'r *Daily Times*, a phob papyr newydd dan chwech wns o bwysau. Caiff ei gario gyda'r post o hyn allan am ddimai yn lle ceiniog. Meddyliasom ar y cyntaf y buasai hyn yn enill i'r Ymofynydd, ond dim. Nid yw Mr. Lowe fawr o gyfaill i'r bobl weithgar, onidê rhoddasai fwy o'r miliwn a hanner iddynt na tê melus Ond nid ydym yn credu y bydd tê y gweithiwr un mymryn yn felusach nag o'r blaen; o blegid i boced y marsiandwyr yr aiff y geiniog a dimai yna—yn sicr ddwy ddimai o'r tair. Ni fuasai ddim llawer i Mr. Lowe ganiatâu i'r ffermwr wneuthur ychydig o frâg at ei ddefnydd ei hunan o leiaf. Ni wnai llymaid o ddiod ddrwg i neb, yn enwedig yn amser y cynhauafau gwair a llafur. Dichon y bydd Mr. Lowe y tro nesaf yn fwy ffafriol i'r bobl, os bydd cŵd John Bull mor llawned ag yw eleni; ond anhawdd genym gredu y bydd.

Y MILLYN (*VIOLET*).

AR ddechreu hâf mae blodyn tlws
Yn agor yn yr ardd;
Nid oes gan Blodwen hoew ei hun
Un gem mwy cûn a hardd.

Yn mhlith y blodau gwychion balch
Mi uchel gwyd ei ben;
Ond llecha mewn sidanaidd wisg
Dan nawdd y ddraenen wen.

Adwaenir hwn, nid wrth ei liw,
Er tlysed yw ei rudd,
Ond wrth yr arogl pêr a daen
O gylch ei drigfan gudd.

Fe rêd y llygad arno o blith
Gwych flodau'r ardd i gyd,
Aiff heibio'r tulip er cael gwel'd
Y Millyn gŵyl ei fryd.

I'r teg ei wedd a'r balch ei drem
Mae yma addysg wiw;
Nid oes blodeuyn ar y ddôl
Nad yw is-genad Duw.

Morwynol wylder uwch pob dim
Rydd addurn ar y fun;
A'r trysor penaf ddena'r serch
Yw'r tegwch guddia'i hun. A. RHYS THOMAS.

MYFYRDOD AR Y GREADIGAETH.

Mae adar y goedwig yn canu
Eu hodlau'n hyfrydlon trwy'r dydd;
Mae'r meusydd yn gwisgo gwyrddlesni;
Mae blodau ar gangau y gwŷdd:
Y ddaear sy'n llawn o ogoniant
Gweithredoedd rhagluniaeth ein Iôr;
Boed ini bawb ganu ei foliant,
Rhydd ini gyflawnder yn 'stôr.

Mae'r haulwen dysgleirwych o'r dwyrain
Yn rhedeg ei yrfa fel cawr;
Mae'n dilyn ei gylchdro yn gywrain,
I loni trigolion y llawr:
Creawdwr y nefoedd a'r ddaear
O'i allu anfeidrol a'u gwnaeth;
Yn gadarn ar foreu y crëad,—
Rhyfeddwn gywreinrwydd y gwaith.
Dowlais.

Mae'r lloer a'r sêr siriol yn gweini
Dedwyddwch a chysur i ddyn,
Sydd yma ar lawr yn ymboeni
Mewn trallod yn waelaidd ei lun:
Holl bedwarcarnolion y ddaear,
Ymlusgiaid, ehediaid, a'r byd,
A dystiant fod llaw Hollalluog
'N eu cadw a'u cynal i gyd.

Pe crwydrwn i randir yr India,
Neu'n uchel i ynys yr iâ,
Ei allu a welwn i yma,
A'i gariad yn mhob peth a wna:
Mae pob priodoledd o'i eiddo
Yn gariad byw trwyddo i gyd.
Cael lle yn nheg Wynfa i breswylio
Ddymunaf 'nol gadael y byd.
AP DAFYDD.

"GWLADYS WILLIAMS."

AR ein amlen y mae hysbysiad o ystori nad yw yn annheilwng o sylw y sawl ydynt yn deall Seisneg. Darllenasom hi gyda phleser. Ei thuedd yw gadael argraff ddymunol ar y meddwl, yr hyn ni ellir ddyweyd am bob ystori. Nis gallwn lai na hoffi cymeriad moesol yr eneth ieuanc, Gwladys Williams. Meddai ar bob peth a addurna y rhyw fenywaidd. Y mae dau filwr ieuanc yn ei charu. Byrbwyll a nwydwyllt yw un o honynt, at yr hwn nid oedd gan Miss Williams ddim serch; am hyny ni rodda iddo un annogaeth yn ei gynygiadau carwriaethol. Mae ei bresenoldeb yn annyoddefol iddi—mae yn gâs ganddi ei olwg. Dyn ieuanc rhinweddol yw y llall. Y mae hi yn ymserchu ynddo ef, ac y mae adduned o ffyddlondeb i'w gilydd yn cael ei wneyd rhyngddynt. Y canlyniad yw cenfigen anorchfygol yn mynwes Morgan, yr hon a gefnogir gan ei dad. Rhodda hèriad i'w *rival* i ymladd ornest. Yr ornest a ymleddir yn nghymydogaeth Abergwili; ac y mae Llywelyn yn cwympo. Caiff marwolaeth sydyn ei chariad y fath effaith niweidiol ar gyfansoddiad tyner Miss Williams, fel ag i fyrhau ei dyddiau. Mae yn tòri ei chalon ar ei ol. Ond anmhosibl yw i ni mewn ychydig linellau wneuthur cyfiawnder â'r ystori, nac ychwaith i roddi drychfeddwl iawn i'r darllenydd. Un o ddyffryn Towi oedd Miss Williams; ac yn nghymydogaeth Caerfyrddin y cymerodd y rhan fwyaf o'r dygwyddiadau le. Pwy bynag sydd am gael golwg gyflawn ar yr ystori, rhaid iddo ei darllen.

MARWOLAETHAU.

Mawrth 27, yn 69 oed, Mary Bevan, o Graigtrebanos. Claddwyd hi yn Gellionen y dydd Mercher canlynol gan y Parch J. Evans, gweinidog y gynulleidfa.

Mawrth 31, yn 69 oed, William Evans, o Benyresgair. Claddwyd ef yn Gellionen. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Claddwyd hefyd yn Baran, Ebril 21, nai i William Evans.

Ebrill 6, yn 25 oed, ar ol chwech mlynedd o gystudd, Miss Eliza Jones, o Gellifaharen, ger Llandyssul, sîr Aberteifi.

Ebrill 9, yn 82 oed, Timothy Lewis, Llanybyther, tad y Parch. J. Lewis, gweinidog yr Annibynwyr yn Henllan. Claddwyd ef yn Aberduar y dydd Mawrth canlynol.

Ebrill 16, yn 8 oed, Hannah, merch Howell a Gwenllian Thomas, o Graigtrebanos. Claddwyd hi yn Gellionen y dydd Mawrth canlynol gan y gweinidog.

D. JENKINS, ARGRAFFYDD, HEOL Y WÎG, ABERYSTWYTH.